

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 358 - 60c
Tachwedd 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Gwobr
Genedlaethol
i'r Cylch**



Tudalen 8

**Tymor
Cyrddau
Diolchgarwch**



Tudalen 9

**Diwrnod
Maes C.Ff.I.
Ceredigion**



Tudalen 15

Llwyddiant Ieuenctid y fro



Llwyddiant y byd athletau

Bu Beca Mai Roberts, Llambled yn brysur unwaith eto dros wyliau'r haf gan fynychu cystadleuaeth 'Digwyddiadau Cyfunol' (Hextathlon) a gynhaliwyd gan Athletau Lloegr ym Manceinion a oedd hefyd yn cynnwys Pencampwriaeth Cymru. Yn dilyn dau ddiwrnod o gystadlu brwd, llwyddodd Beca i ennill medal arian Roedd hyn yn ganlyniad gwych iddi gan mai hon oedd yr ail gystadleuaeth o'r fath iddi gymryd rhan ynddi.

Y penwythnos canlynol, teithiodd Beca i Wrecsam i Bencampwriaeth Athletwyr Iau Cymru, lle bu'n cystadlu yn erbyn goreuon y wlad yn y naid hir a'r naid uchel. Coronwyd tymor llwyddiannus iawn o gystadlu pan gipiodd fedal efydd am ei hymdrechion. Yna, ar Hydref y 7fed, cynhaliwyd Pencampwriaeth Digwyddiadau Cyfunol Dan Do Athletau Cymru ac Ysgolion Cymru ar y cyd. Dyma'r tro cyntaf i Beca gymryd rhan mewn cystadleuaeth 'dan do', ac ar ôl diwrnod llwyddiannus o gystadlu yn y pum maes (naid hir, clwydi, taflu 'shot', naid uchel a'r 800m), gorffennodd y diwrnod yn y 3ydd safle. Yn dilyn hyn, derbyniodd Beca'r newyddion cyffrous ei bod wedi cael ei dewis i dîm dan 16 oed merched Cymru a fydd yn cystadlu yn erbyn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yng Nglasgow yn ystod mis Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i ti wrth gynrychioli Cymru.



Aelodau CFFi Cwmunn gyda Tharian Nantybwl am ddod yn ail yn Eisteddfod Clybiau Fferwmyr Ifanc Sir Gâr. Cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn ac ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth meimo yn uchafbwynt [gweler llun ar dudalen 26].



Llongyfarchiadau mawr i Carwen Richards, C.Ff.I Dyffryn Cothi a enillodd Cadair Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn ddiweddar. Roedd y Gadair oedd yn rhoddedig gan Iestyn Davies, Cadeirydd y Sir. Osian Davies, aelod o C.Ff.I Capel Iwan greodd y Gadair.

Hefyd, yn yr un Eisteddfod enillodd Sioned Howells o G.Ff.I. Llanllwni, sydd hefyd yn Aelod Iau'r Flwyddyn yn Sir Gâr, y Goron a oedd yn rhoddedig gan Gadeirydd y Sir Iestyn Davies. Cafodd y goron ei chreu gan Dylan Bowen, sy'n Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Gweithgareddau.

Yn y llun hefyd mae Llywydd y Sir, Arwyn Davies.

Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr



C.Ff.I. Llanllwni yn dathlu ar ôl ennill Tarian am y fwyaf o bwyntiau yn Adran y Gwaith Cartref yn Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr.




Alpha Evans, C.Ff.I. Cwmunn yn cipio'r 2il wobwr yn yr unawd piano dan 26 oed yn yr Eisteddfod Sir.

£4000 i'r Beiciau Gwaed



Pwyllgor a chyfeillion Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant yn cyflwyno sic o £4,000 i 'Beiciau Gwaed Cymru' yn eu cinio blyneddol yng Ngwesty Llanina, Llanarth ar nos Sadwrn, Hydref 28ain.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges @
lois_wms
Hydref 21
Barod am ymarfer te!
@eglwysgymraeg
@CorCorisma
@CorCardiGan
@MeibionYmynydd #TYO

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Hydref 21

Gêm galed i
dîm leuenctid @
LampeterTownRFC
heddiw o dan
amgylchiadau anodd yn
erbyn @rygbicrymych

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@MrganJenkz
Hydref 21
Noson wych neithiwr yng
nghwmni
@Bois_y_Rhedyn.
Llongyfarchiadau i dîm
Diabetes Llanybydder am
noson lwyddiannus.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@UrddCeredigion
Hydref 10

Canlyniadau'r pêl-
droed 5: 1af - Adran
Llambod; 2il - Adran
Emlyn; 3ydd - Adran
Bro Sion Cwilt

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd @
Clonc360 neges @
MenterGSG
Hydref 5

Nia wedi mwynhau
yng nghwmni'r criw
brwdfrydig yma heddiw
yng Nghanolfan Deulu
Llanybydder

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ElinCeredigion
Medi 29

Bore coffi
@macmillancancer
Llanwnnen. Da iawn
pawb!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Tachwedd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Rhagfyr Lois Williams, Crynfryn, Cwmann 423700
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Siwan Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Eifion Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Un peth sydd wedi fy nharo i yn ystod y mis diwetha' yw'r ymdrech sy'n cael ei roi ar gyflwyno'r iaith Gymraeg i'r ifanc a'r rhai heb fod mor ifanc (sylwer fy mod i'n osgoi defnyddio'r gair "hen"!)

Mae byd babis yn beth newydd i Cloncen. Un digwyddiad sy'n uchafbwynt yn ystod yr wythnos yw'r sesiwn awr-a-hanner Stori a Chân sy'n digwydd dan nawdd Cymraeg i Blant yng Nghanolfan Deuluol Llambled bob prynhawn Llun. Dyma gyfle i fabanod a phlant bach gael mwynhau cyd-ganu, clywed stori, a gwneud crefft, yng nghwmni plant eraill a'u mamau / tadau / mam-gus / tad-cus. A hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gyfle i ninnau'r rhieni neu warcheidwaid gwrdd â rhai yn yr un cwch â ni, ac yn bennaf oll, gyfarfod â rhai sy'n siarad yr iaith neu o leia' sy'n ymdrechu i ddysgu'r iaith. Fwy nac unwaith mae rhai di-Gymraeg wedi dod â'u plant neu'u hwyrion i'r sesiwn, ac mae hyn wedi llonni fy nghalon – bod rhai yn gweld pwysigrwydd trosglwyddo'r iaith i'w plant. Ac nid dyma'r unig sesiwn debyg sy'n digwydd yn ystod yr wythnos. Petawn i'n barod i deithio ychydig i'r pentrefi a'r trefi eraill o fewn cyrraedd, gallwn fod yn mynd â'r un bach i ryw sesiwn neu'i gilydd bob dydd! Ond dwi ddim am i'r babi gael gwell 'social life' na fi eto!

Peth arall sydd wedi llonni fy nghalon yn ystod y mis diwetha' yw'r bwriad i gynnal Parêd Gŵyl Dewi yn nhre Llambled. Dyw hyn ddim yn syniad cwbl newydd, gan fod Aberystwyth wedi hau'r hadau a chynnal Parêd yn flynyddol oddi ar 2013. Ond mae'n dda gweld trefi llai o faint fel Llambled yn mynd ati i drefnu digwyddiad sy'n cwmpasu pob cenhedlaeth, fel y gallwn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg. Dyma gyfle hefyd i fewnfudwyr, o ble bynnag y do'n nhw, sylweddoli y gallan nhw fod yn rhan o hyn oll, dim ond iddyn nhw barchu ein hiaith a'n traddodiadau, a gwneud ymdrech i'w dysgu. Wedi'r cwbl, sgil yw dysgu iaith, a gall pawb ddysgu rhywfaint, glei?

Cloncen

Plant Mewn Angen

Bydd diwrnod Apêl Plant mewn Angen ar Dachwedd 17eg. Byddwn yn ôl ein harfer yng Nghapel Wesle Llanbed – sydd ar y Cwmins (Maes Parcio) o 10 y bore tan 5.30 y.h. Hyderwn y bydd yr Ysgolion, Clybiau C.Ff.I., Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Capeli, Eglwysi, busnesau ac unigolion yn mynd ati i gasglu. 'Rydym wedi bod wrthi ers y dechrau ac 'rydym fel tîm yn heneiddio. Mae angen gwaed newydd i fynd ymlaen â'r Apêl yn y fro, sydd erbyn hyn wedi casglu un miliwn a saithdeg pump mil o bunnau. 'Rydym yn hysbysu y byddwn ni'n dau a rhai eraill o'r Pwyllgor hefyd yn gorffen eleni. Tybed a oes yna rywrai yn barod i ymuno â'r tîm? Gobeithio y bydd. Mae'r Apêl wedi dod ag enw da i Lanbed a'r fro. Cysylltwch â ni – ffoniwch (01570) 422587.

Diolch yn fawr,
Goronwy a Beti Evans

Llyfr Ysgol Cwrtnewydd



HELP!

Helpwch ni i gyhoeddi Llyfr Ysgol Cwrtnewydd.

Mae'r deunydd bron yn barod. Mae'r lluniau yn eu lle. Yr unig beth sydd ei angen nawr yw digon o archebion i wneud y llyfr yn bosibl.

Mae'n addo bod yn llyfr gwerth ei ddarllen ... atgofion o ddegawd i ddegawd ... digonedd o luniau ... hanes gêm, bwyd a chaneuon actol!

Er mwyn talu am argraffu'r llyfr, r'yn ni'n casglu archebion ymlaen llaw – dim ond £10 yw'r gost ymlaen llaw.

Anfonwch eich enw, eich cyfeiriad llawn a rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost gyda siec yn daladwy i 'Llyfr Ysgol Cwrtnewydd' (neu arian) at Luned Mair, Cartref, Alltyblaca, Llanybydder SA40 9ST (llyfrysgolewrt@outlook.com).

Mae angen yr archebion erbyn dydd Sadwrn 11 Tachwedd er mwyn i'r llyfr fod yn eich llaw erbyn y Nadolig.

Cofiwch y dyddiad 11 Tachwedd.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i un o olygyddion CLONC sef Siwan Davies ar ei phriodas â Emyr Richards, 9 Cwrt Dulais, Llambled ar ddydd Sadwrn, Hydref 28ain yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog. Dymuniadau gorau i chi yn eich bywyd priodasol.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.



TACHWEDD

- 2 a 4 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 3 Noson Tân Gwyllt yn Llew Du Llanybydder am 6 y.h.
- 3 Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbed yng Nghlwb Rygbi Llanbed gydag Ifan Jones Evans. Tocynnau oddi wrth Ioan Williams 422370.
- 5 Ford Gron Llambled yn cynnal eu coelcerth ac arddangosfa tân gwyllt blynyddol yng Ngwili Tractors, tu ôl i'r Clwb Rygbi ar Ffordd y Gogledd, am 7y.h. Bydd lluniaeth ar gael ar y maes a bydd pob elw yn mynd at achosion da lleol.
- 7 Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn San Tomos am 5.30y.h
- 11 Gŵyl Gerdd Dant Llandysul a'r Fro yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 11 Memphis Belle yn Llew Du, Llanybydder am 8 y.h. Bydd elw'r noson yn mynd at y cylch meithrin. Tocynnau yn £5.00.
- 13 Merched y Wawr Llambled, Cinio Blynyddol yn Llanina.
- 15 KATE - Mewn Cymeriad (cwmni Eleri Twynog), yn Festri Shiloh, Llambled am 7.30y.h. Merched y Wawr Llambled yn trefnu. Tocynnau'n £5 o Siop y Smotyn Du neu gan Elin Williams 07498 717889.
- 16 Cyfarfod cyffredinol blynyddol Plaid Cymru Llanbedr Pont Steffan yn y Grannell, Llanwnen, 7.y.h. Croeso i bawb, aelodau hen a newydd.
- 17 Cyfarfod cyhoeddus gyda Ben Lake, Heini Gruffudd a Cynog Dafis dan y thema - AMSER I DARO - YR ANGEN I LOBIO O BLAID YR IAITH wedi'i drefnu gan fudiad Dyfodol i'r Iaith. Aros am gadarnhad am y lleoliad.
- 18 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Venue Cymru, Llandudno.
- 19 Cerddoriaeth The Golden Geckos yn Neuadd Llanfair Clydogau am 8y.h.
- 20 Bingo yn Nhalardd, Llanllwni am 8.y.h. gydag eglwys Llanllwni.
- 24 Tip-It yn Festri Capel-y-Cwm, Cwmsychpant.
- 24-25 Ffair Grefftai Flynnyddol yn Neuadd Pumsaint o 10yb-4yh. Dewis eang o gynnyrch, raffl a lluniaeth. Elw at Ofal Cancr y Fron Cymru. Croeso cynnes i bawb.
- 28 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llambled am 7y.h.
- 28 Bingo yn y clwb rygbi Llanybydder am 8.y.h. gyda'r ysgol feithrin.
- 29 'Ffermio - o Oes i Oes'. Panel o ffermwyr lleol yn siarad am eu profiadau o amaethu ar hyd yr oesoedd sef Dai Rees, Penlan noeth, Ieuan Jones, Pwllbilwg a Huw Evans Alltgoch gyda Heilyn Thomas yn cadw trefn yn nhafarn y Grannell, Llanwnnen i ddechrau am 8.y.h.

RHAGFYR

- 2 Ffair Nadolig Cylch Meithrin ac Ysgol Llanllwni am 10y.b.
- 2 Ffair Nadolig Llanybydder am 4 y.p.
- 3 Cymanfa Garolau yr Urdd Capel Brondeifi am 5y.h.
- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 9-16 Panto Theatr Felinfach.
- 9 Ysgol a chylch meithrin Llanybydder yn cynnal ffair Nadolig yn y Llew Du am 10.00y.b.
- 11 Merched y Wawr Llambled Meinir Wyn Edwards, golygydd Y Lolfa.
- 16 Carol, Cerdd a Chân yn Eglwys San Pedr Llambled am 7y.h.
- 17 Cynhelir Cymanfa Garolau Capel Brynhafod am 7.30y.h. Dewch draw i ddathlu hwyl y Nadolig gyda ni.
- 17 Gwasanaeth Nadolig i'r teulu cyfan am 4 o'r gloch. Te a chacen i ddilyn.

IONAWR 2018

- 13 Noson yng nghwmni Bois y Rhedyn yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint am 7.30 y.h. Manylion pellach wrth Christine ar 01558 685439.
- 31 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4y.p. Croeso cynnes i bawb.

CHWEFROR

- 19-23 Cystadleuaeth Pantomeim C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 26 Cyngerdd Pantomeim C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 28 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4y.p.



Sara Elan Jones, Cwmann yn ennill yr Unawd 12-16 oed, y Llefaru 12-16 oed a'r Cwpan am ddarlenn o'r Ysgrhythur 12-16 oed yn Eisteddfod Felinfach ddiwedd mis Medi ac yna wythnos yn ddiweddarach yn ennill y Llefaru 12-16 oed, yr Emyr a'r Cerdd Dant 12-16 oed yn Eisteddfod Llanarth.

Dathlu

Dathlodd Ronnie Roberts, Bryn View, Parcyrrhos ben-blwydd arbennig ar ddechrau mis Hydref. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu!

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jones, Araul am basio Gradd 6 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'London College of Music'.

Enillwyr Clwb 125 Neuadd Sant Iago mis Hydref 2017

1. Dafydd Davies, Ger-y-nant, Drefach, 24. 2. Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, 11. 3. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann, 52. 4. Ruth Jones, Heol-Y-Maes, Pencarreg, 20. 5. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 36. 6. Lois Williams, Crynfryn, Cwmann, 53. 7. Andrea Lewis, Tŷ Gwyn, Llanygbi, 148.

Diolch

Dymuna Gwilym a Phyllis Price, Brynderi ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y rhoddion a'r cyfarchion ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt.

Hefyd dymuna Phyllis ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei salwch yn ddiweddar.

Dymuna Noleen a David John, Wernfraith ddiolch yn fawr iawn am yr holl gyfarchion, y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Llongyfarchiadau

Mae Eifion a Meinir Williams, Cysgod-y-Pin bellach yn dad-cu a mam-gu oherwydd ganwyd mab bach, sef Archer [Archie] Ellis, i Eurion a'i bartner Claire sy'n byw ym Mrynsteffan, Llambled. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

Pwyllgor Pentref Cwmann Clwb 225 Hydref 2017

1. Iona Davies, Murmur Teifi, Cwmann, 33. 2. Mary Jones, 40a Stryd Fawr, Llambled, 52. 3. Eifion Davies, Rhoswelir, Parcyrrhos, Cwmann, 14. 4. Carl a Meinir Douglas, Llwydfedw, Cwmann, 144. 5. Emyr Hargreaves, 17 Heol-Hathren, Cwmann, 98. 6. Ieuan Jenkins, Penant, Rhydcymerau, 118. 7. Eleri Thomas, Pantygwin, Cellan, 200.

Cymdeithas Bethel

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Wish Gadula yng nghyfarfod mis Hydref Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos. Bu'n sôn am ei wreiddiau Pwylaidd, ei fagwraeth yn Ffarmers, ei ddiddordeb mewn rhedeg a'i yrfa yn y byd adeiladu yn lleol ac mewn gwledydd tramor, a gwelwyd lluniau difyr iawn ganddo o hyn oll.

Cwis yr ofalaeth fydd nesaf yn Rhydybont Llanybydder ar yr 20fed Tachwedd dan ofal y cwisfeistr Glyn Jones, Caoe.

Rhifyn Rhagfyr

yn y Siopau

7 Rhagfyr

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

27 Tachwedd

Pencarreg

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Cerys Angharad Jones, Cysgod y Graig am basio Gradd 2 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y 'London College of Music'. Cafodd Bleddyn farciau llawn yn un o'r darnau.

Diolch

Dymuna Julie Davies, Glenview ddiolch i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a phawb am y

llu o gardiau, blodau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar. Gwerthfawrogi eich consyrn yn fawr. Diolch yn ddiffuant i bawb.

Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a gafodd lwyddiant yn Ffair Ram a Sioe Cao a Llanyerwys yn ddiweddar.

Chwaraeodd Bechgyn Carreg Hirfaen yn wych yn Nhwrnamaint Rygbi Ceredigion a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar gan gyrraedd rownd y pedwar olaf!!! Llongyfarchiadau mawr iddynt. Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi'r merched am ennill dwy gêm allan o bedair gan chwarae'n arbennig o dda.

Rydym wedi ail ddechrau gyda chlwb yr Urdd ac mae'r plant wedi bod yn brysur yn trafod pa weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud dros y flwyddyn. Cawsom lawer o syniadau hyfryd. Rydym wedi cael noson chwaraeon a noson gelf a chreffft hyd yn hyn. Braff i weld dros 75 o blant yn aros i glwb yr Urdd.

Mae plant blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur iawn yr hanner tymor yma yn astudio'r thema Cestyll a Dreigiau. Fel rhan o'r gwaith aethom ar daith o gwmpas Castell Dinefwr. Dyma adroddiad Ifan Jones o flwyddyn 3.

"Ar ddydd Iau, 14eg o Fedi, aethom ar daith o gwmpas Castell Dinefwr. Cyn cael y cyfle i weld y castell, cawsom sioe am yr Arglwydd Rhys Ap Gruffudd gan y cwmni 'Mewn Cymeriad'. Roedd e'n byw yn yr Oesoedd Canol ac roedd yn rhyfelwr ffyrnig. Brwydro yn erbyn y Normaniad a'r Saeson oedd ei swydd.

Ar ôl hynny dechreuom y daith hir i fyny'r castell. Am olygfeydd hyfryd uwchben y bryn. Roedd y castell yn anferthol a chefais amser arbennig yn crwydro o gwmpas adfeilion y castell. Diwrnod penigamp!"

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol yn Neuadd Coedmor yn ystod y mis. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y disgyblion a chafwyd annerchiad hyfryd a phwrpasol gan y Parchedig Jill Thomas.

Ar y 3ydd o Hydref aeth plant y Cyfnod Sylfaen i ysgol Dyffryn Cledlyn i Sioe Sbri di ri yr Urdd. Cafwyd llawer o hwyl yn canu ac yn dawnsio gyda disgyblion y Cylch.



Llongyfarchiadau i Llyr Ifan, Llyr Jones, Marged, Rhun ac Efan am gael eu hethol yn Llysgenhadon am y flwyddyn sydd i ddod. Swydd y Llysgenhadon yw i hybu chwaraeon ar draws yr ysgol ac mae'r pump yn trefnu clybiau chwaraeon amser cinio.



Bu tîm trawsgwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Roedd dros gant a hanner o blant ym mhob ras. Cipiodd Casi Gregson o flwyddyn 5 yr ail safle a Joshua Morris o flwyddyn 3 y 10fed safle. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i bawb arall a lwyddodd i orffen y ras mewn amseroedd gwych.



Dosbarth blwyddyn 3 a 4 yng Nghastell Dinefwr

Yn ystod y mis daeth cwmni Arad Goch i'r ysgol i gyflwyno drama 'Nid Fi' i Gyfnod Allweddol 2. Roedd y sioe yn canolbwyntio ar fwlio seibr.

I ddathlu diwrnod Shwmae Shwmae, daeth Sali Mali i gwrdd â disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Braff oedd ei chroesawu atom.

Ar ddiwedd mis Medi, aeth carfan o fechgyn Blynnyddoedd 5 a 6 Carreg Hirfaen i Glwb Rygbi Aberaeron i gymeryd rhan yn nhreialon rygbi Ysgolion Cynradd Sir Ceredigion. Dewiswyd dau o fechgyn Blwyddyn 6, sef Rhun Jones ac Efan Thomas i fod yn aelodau o'r garfan. Yn dilyn ymarferion wythnosol ar gaeau Clwb Rygbi Llambled, chwaraeodd y tîm ei gêm gyntaf yn erbyn Ysgolion Dinefwr a Rhun ac Efan yn chwarae rhan flaenllaw ym muddugoliaeth Ceredigion. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob lwc am y tymor.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Carreg Hirfaen wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar gan drefnu noson sinema yn Neuadd Coedmor ac arwerthiant gwisg ysgol. O ganlyniad i'r gweithgareddau codwyd £400. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y gweithgareddau.



Cofrestrwch
ar ein
gwefan
gymunedol

www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu
eich stori chi.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns
WELSH GIFTS
2 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan

T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com [f.dawnswelshgifts](https://www.facebook.com/dawnswelshgifts)

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant *Eryl Jones Cyf*

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanfair Clydogau

Sefydliad y Merched

Cafwyd noson agored arbennig
ar nos Iau Medi 28ain pan ddaeth
Lyn Ebenezer, o Bontrhydfendigaid
i siarad â ni am ei lyfr 'Operation
Julie'. Creodd hyn ddiddordeb mawr
ymysg trigolion yr ardal a chafwyd
y gynulleidfa fwyaf ers amser maith
a'r neuadd yn llawn. Diddorol
iawn oedd clywed storïau am y
cymeriadau a gafodd eu harestio am
dyfu a chreu cyffuriau, rhai ohonynt
wedi eu derbyn i fod yn rhan o'r
gymuned leol fel cymeriadau hoffus,
neb yn meddwl eu bod yn rhan o
gylch byd eang o greu a gwerthu
cyffuriau gwerth miloedd ar filoedd
o bunnoedd. Roedd y bobl yma
yn gymeriadau addysgiadol clyfar
dros ben wedi derbyn addysg uwch
mewn colegau fel Rhydychen a
Chaergrawnt. Cawsant eu dal trwy
waith grŵp o dditectifs yn gweithio
yn gudd dros tua dwy flynedd o
amser ond yn bennaf trwy waith dau
ohonynt a ddaeth i fyw mewn fan
yn Llanddewi Brefi ac esgus bod
yn 'hipis' yn chwilio am eu brawd
oedd newydd ddianc o'r carchar.
Gan fod llawer o fewnfudo wedi
digwydd yn y saithdegau, lle roedd
'hipis' wedi symud i ardaloedd
anghysbell cefngwlad Ceredigion,
ni chawsant problem i integreiddio
mewn i'r gymuned honno heb i
neb eu drwgdybio. Trwy eu gwaith
cudd, cawsant ddigon o wybodaeth
i'w harestio. Cafwyd llawer o
gwestiynau ar y diwedd ac ambell
stori ddiddorol oddi wrth un neu
ddau berson a oedd yn adnabod y
cymeriadau oll. Bu llawer o siarad
a chymdeithasu dros bandedd a lluniaeth
blasus a oedd wedi ei baratoi gan y
merched.

Llyfr Newydd

Pleser mawr yw cyhoeddi bod
Alan Leech wedi ysgrifennu llyfr
newydd am hanes William Jones,
Glandeny - am ei wleidyddiaeth
ac am feddau'r cariadon. Roedd
William Jones yn Uwch-sirudd
Ceredigion ac yn Arglwydd Raglaw
dros y sir, yn ddyn cyfoethog iawn,
yn berchennog tir ac yn aelod
o fonedd y bedwaredd ganrif ar
bymtheg yng ngorllewin Cymru.

Mae Alan wedi treulio'r rhan
fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf yn
ymchwilio i hanes teuluol William
Jones, ei fywyd personol, y plasau
a fu'n byw ynddynt yn cynnwys
Glynhegog a Glandeny, a'i
ddylanwad ar ardaloedd lleol
yn enwedig Llanfair Clydogau.
Mae'r llyfr ar werth yn Siop y
Pentre, Llanfair neu drwy law yr
awdur ac yn werth ei ddarllen.

Croeso

Croeso cynnes i Barry a Jean
Gibbs, o Seaton, Devon sydd
newydd symud i fyw i Fronafon,
Heol Llanfair. Hefyd i'w mab sy'n
dod i fyw atynt o swydd Essex.

Eglwys Santes Fair

Cafwyd gwasanaeth bendithiol yn
ein cwrdd diolchgarwch blynyddol
o dan ofal Bill Fillery gyda 'r
Ficer Andy Herrick yn cymryd y
gwasanaeth.

Hoffai aelodau'r Eglwys ddolch
i bawb a gyfrannodd 'fwyd cadw'
ar y noson. Cafodd y cyfan ei
drosglwyddo i Fanc Bwyd Llanbed.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i
Gwyneth Jones, Noyadd ar ôl iddi
gael damwain yn ddiweddar.

Y Cadno Stud, Awelon

Mae Llanfair nawr ar y map
rhyngwladol ym myd merlod
Shetland. Trwy lwyddiant 'Y Cadno
Stud' yn sioe gwerthu y merlod yma
yn Reading yn ddiweddar, cafwyd
llawer o ddiddordeb ynddynt gan eu
bod wedi eu magu dre ar y fferm.
Trwy hynny gwerthwyd un i deulu
allan yn Bavaria, yn yr Almaen.
Gwerthwyd Cadno George's
Dragon oedd yn dair oed, ac wedi
ei thorri mewn gan Elonwy yr Haf
diwethaf, am y pedwerydd pris uchaf
yn y gwerthiant ers blynyddoedd.
Cafodd yr ebol lleiaf, Cadno
'Wood Elf', oedd wedi ei eni eleni,
ei brynu i fod yn fodel a mascot
newydd i gwmni rhyngwladol sy'n
gwneud rygiau ceffylau a chafodd
Cadno 'Midnight Pixie' ei gwerthu
am bris uchel yn adran ebolion
fili a chael cartref yn yr Alban.

Llongyfarchiadau i Alex a'r teulu
am lwyddiant arbennig ond llawer o
hiraeth ar eu hól rwy'n siŵr.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad
dwysaf ag Elaine a Ron Coombes,
Penlanmedd ar farwolaeth mam
Elaine a hithau yn ei nawdegau.
Roedd ei mam yn enedigol o dde
Cymru ond wedi byw yn lleol ers
sawl blwyddyn bellach. Treuliodd y
blynyddoedd diwethaf yng nghartref
yr henoed yn Allt y Mynydd lle y bu
farw. Bendith ar y teulu oll.

Cwrdd Diolchgarwch Capel Mair

Cawsom wasanaeth bendithiol
iawn yng ngofal y Parchedig Alun
Wyn Dafis, gweinidog Brondeifi,
Llanbed. Daeth cynulleidfa niferus
ynghyd yn cynnwys sawl person
di-gymraeg. Gwnaeth Alun Wyn
sylweddoli hyn ac fe ddefnyddiodd
dipyn o saesneg er mwyn iddynt
deimlo'n gartrefol. Cyflwynwyd y
gweinidog gan Ian Evans, Esgairman
ac ar yr un pryd croesawodd bawb
i'r oedfa. Mrs Aerwen Griffiths
oedd wrth yr organ a diolch iddi
am ei gwasanaeth. Hi hefyd wnaeth
y trefniadau ar gyfer y blodau
prydferth. Roedd naws hyfryd i'w
deimlo trwy gydol y gwasanaeth.

Ymdeoliad

Mae Debora Jones, Llanfair
Fach, newydd ymdeol o'r gwaith
o ddysgu Cymraeg fel ail iaith i
oedolion a hynny am dros 17 o
flynyddoedd. Mae'n siŵr bod llawer
wedi elwa o'i gwersi. Diolch yn fawr
Debora a dymunwn i chi ymdeoliad
hapus.

Bowlio

Cafwyd noson hyfryd o chwarae
bowls a chymdeithasu pan aeth
grŵp o Lanfair draw i chwarae i
Llangeitho. Llangeitho oedd yr
enillwyr y tro yma. Rydym yn
gobeithio trefnu noson o fowlio
iddynt yn Llanfair yn fuan. Diolch
i Al a Dilwen am drefnu'r noson
a diolch i ferched Llangeitho am
y wledd o fwyd yr oeddent wedi
paratoi ar ein cyfer. Nawr mae pawb
yn edrych ymlaen at y gêm nesa.



Cynhaliwyd Sioe Ebolion flynyddol Cymdeithas Merlod a Chobiau
Cymreig ar Fferm Penparc Llambod yn ddiweddar. Y prif bencampwr
oedd pencampwr adran 'D', sef 'Eglwysfach Rosie', eboles Elgan Evans,
Caegwyn, Harford. Gwelir Llywydd y Sioe, sef Mr Cemaes Evans, Bridfa
Cathedine yn cyflwyno Cwpan Arian i Elgan.

Llanllwni

CFFI Llanllwni

Cynhaliwyd Sioe Flynyddol y clwb ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Bu'r diwrnod yn llwyddiannus a hefyd y fideo Gwartheg yn y nos. Fe gasglwyd £2250 i Ambiwylans Awyr Cymru ac Ysbyty Tywysog Phillip Uned Gofal Y Fron, Llanelli. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth gyfrannu i'r llwyddiant mewn unrhyw ffordd.

Beth bynnag, ymarferion yr Eisteddfod sydd wedi bod yn mynd a'n hamser yn ddiweddar, ond yn wir fe wnaeth yr holl ymarferion dalu ffordd.

Dyma'r canlyniadau'n llawn:-
1af; Sioned Howells Llefaru 21 ac Iau, 2il; Owain Davies- Llefaru 21 ac Iau. 2il; Sioned Howells – Canu Emyrn. 2il; Siôn Evans- Llefaru 26 neu Iau. 2il; Meimio i Gerddoriaeth. 3ydd; Parti Llefaru. 3ydd; Siôn, Hefin a Siriol- Triawd Doniol.

Dyma ganlyniadau'r Gwaith Cartref:- 1af; Sioned Howells – Rhyddiaith (Y Goron). 1af; Owain Davies- Cyfansoddi Sgets. 2il; Siôn Evans- Limrig. 2il; Siriol Howells- Blog. 3ydd; Betsan Jones- Cyfansoddi Drama. 3ydd; Nerys Jones- Limrig. 3ydd; Sioned Howells- Cyfansoddi Cân. 3ydd; Siriol Howells- Brawddeg

Ar ôl yr holl gystadlu, llwyddodd y Clwb ddod nôl â'r Darian Gwaith Cartref i Llanllwni am yr ail dro. Hoffwn fel clwb estyn ein diolch i bob un sydd wedi ein cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i sicrhau eisteddfod lwyddiannus arall i glwb Llanllwni, ac i'r rhieni am gludo'r aelodau i'r ymarferion! Diolch i chi gyd a phob lwc i'r eitemau a fydd yn mynd ymlaen i Eisteddfod Cymru fis Tachwedd yn Llandudno.

Ysgol Llanllwni

Diolch i gwmni Statkraft am eu rhodd tuag at brynu mwy o adnoddau TGCh i'r ddau ddosbarth. Diolch yn fawr.

Datblygu sgiliau pêl buodd yn sesiynau Campau'r Ddraig i'r Adran Iau ers Mis Medi tra dechreuodd clwb newydd i'r Cyfnod Sylfaen sef Clwb Sgiliau ac yn ystod yr wythnosau diwethaf datblygwyd sgiliau TGCh. Ar ôl hanner tymor fe fydd Clwb yr Urdd yn dechrau ac eleni mae yn agored i bob oedran yn yr ysgol.

Codwyd £175 tuag at elusen MacMillan drwy gynnal Bore Coffi gan wahodd rhieni a ffrindiau'r ysgol i gael paned a chlone yn yr ysgol. Diolch i bawb gefnogodd.

Aeth y plant i gyd i Gwrdd Diolchgarwch yr Eglwys ar brynhawn Iau, Hydref 5ed. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Ficer Suzie a chanodd y plant yn swynol iawn. Da iawn chi. Casglwyd £73 tuag at Gymorth Cristnogol.

Aeth 6 plentyn, sef Alwena, Tilly, Mared, Tudur, Eirwen ac Emrys

am bum diwrnod i Bentywyn gan fwynhau'r gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored a chymdeithasu gyda phlant o ysgolion eraill gan gael llawer o hwyl a sbri.

Cydymdeimlwn â Mrs. Delyth Evans a'r teulu ar eu profedigaeth o golli brawd yn ddiweddar.

I ddathlu diwrnod Shwmae Shwmae daeth Menter Iaith a Sali Mali i'r ysgol. Cafodd y plant stori a chyfle i gael llun gyda Sali Mali.

Ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen sef Dydd Gwener, Tachwedd 17eg, rydyn yn bwriadu mynd o amgylch y pentref i gasglu arian.

Dymunwn yn dda i Gillian ar ei hymddeoliad o'i swydd fel glanheuwraig yr ysgol. Mae wedi cadw'r ysgol yn lân ers nifer o flynyddoedd a diolch hefyd i Lyn sydd wedi ei helpu a gwneud llawer o waith trwsio a pheintio er mwyn cadw'r ysgol yn daclus. Byddwn yn gweld eisiau y ddau ohoch yn fawr a gobeithio cewch iechyd ac ymddeoliad hapus.

Cofiwch am ein Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal ar Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 2il am 10 o'r gloch. Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol a'r Ysgol Feithrin yn brysur yn trefnu'r ffair. Bydd yna ddigon o stondinau a chyfle gwyh i wneud dipyn o siopa Nadolig! Llywydd y dydd bydd Mr. a Mrs. Alan Bellamy. Mae llyfrau raffl ar werth gan y rhieni ac yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Hydref-
1af - £10 – Mali Evans, Rylwyn, Llanybydder. 2il - £5 – J. Benson, Arfron, Llanybydder. 3ydd - £5 – Erin Evans, Parklane, Llanllwni.

Cydymdeimlo

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs Maureen Davies 2 Bryndulais. Cydymdeimlir â Dai a Clive yn eu profedigaeth. Hefyd cydymdeimlwn â 'u chwaer sef Gwen Walters Wernenfach a'r Teulu yn eu colled.

Cydymdeimlir â Dewi Davies Glanafon ar golli nai sef Emyr Davies, Glynteg, Llanybydder mab Dewi (Pantygogle gynt) a Bet Davies a hefyd Delyth Evans a'r Teulu ar golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl.

18 oed

Pen-blwydd hapus i Iolo Thomas, Tergan ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar ddechrau mis Hydref. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu!!

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45-12.

Cynigwn addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377 781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Llongyfarchiadau i'n harweinydd Miss Bethan ar enedigaeth Elen Rose!

Cawsom noson lwyddiannus ar y 22ain o Fedi yn y noson bampro. Gwnaed elw o £500 ar y noson. Diolch i bawb am eu cefnogaeth!

Ffair Nadolig

Ar yr 2il o Ragfyr rhwng 10yb i 2yp bydd ein Ffair Nadolig ar y cyd gyda'r ysgol Gynradd. Llywyddion y diwrnod fydd Mr a Mrs Alan Bellamy. Bydd yna ymweliad gan Siôn Corn, plant yn canu carolau a llawer mwy. Cyfle gwyh i chi wneud eich siopa Nadolig a chefnogi busnesau lleol. Dewch yn llw!

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 9-11yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a thad-cus i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Ein hamserlen am y tymor nesaf:
02.11.17 HANNER TYMOR
09.11.17 Gweithgaredd tân gwyllt
16.11.17 Plant mewn Angen
23.11.17 Argraffu â llyisiau
30.11.17 Little M'zzz, Llanybydder
07.12.17 Clai a dŵr
14.12.17 Crefft Nadolig

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Enillwyr Clwb 100 mis Hydref:
1af)---£15---Ann Gibby (rhif 36)
2il)---£10---Bethan a Catrin

Evans(27)
3ydd)-£10---Ken Howells(93)

Mae'r amser wedi dod i gofrestru am flwyddyn arall. £10 am bob enw yw'r gost.

Dechreuodd Undeb y Mamau Sant Luc ar y 10fed o Hydref, gyda chyfarfod byr. Mis nesa byddwn yn cael cwmni David Cooper o Gwmann.

Dymunwn yn dda i Edward Downer sydd wedi bod yn ddi-hwyl yn ddiweddar. Rydyn yn meddwl llawer am Kathleen Edwards Tregaron sy'n hanu o Lanfihangel ar arth. Mae Kathleen wedi bod yn ysbyty Bronglais ers rhai wythnosau. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Cynheir Bingo yn Nhalardd, Llanllwni am 8.00y.h. gyda'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Dai, Clive, Gwen a'r Teulu ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth ac arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth sydyn o golli gwraig,

mam a chwaer annwyl sef Mrs Maureen Davies 2 Bryndulais.

Llwyddiant Eisteddfodol



Llwyddiant dwy chwaer - Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill y Llefaru 8-10 oed a Gwennan yn ennill yr Unawd a'r Llefaru 6-8 oed yn Eisteddfod Llanarth.

Cellan

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Emily Jones, Coedmore Hall yn well ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Ken a Mary Jones, Glasfryn ddiolch yn fawr i bawb am y llw cardiau, blodau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Babi Newydd

Yng Nghaerdydd, yn ystod y mis hwn, ganwyd merch fach, sef Eila Swyn i Lowri [gynt o Llys Barcud] a'i phriod Gwyn. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i chi ar ddyfodiad Eila.

Alltyblaca

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jenkins, Llain Deri am basio Step 2 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y 'London College of Music'. Cafodd Elan farciau llawn yn y theori.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlad â theulu Sam Lewis, Tegfryn a fu farw ar ddechrau mis Hydref. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys yng Nghapel Aberduar, Llanybydder.

Llanybydder



Gary Jones yn cyflwyno sic o £600 i Swyddogion cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru. Cododd yr arian drwy gael ei noddi i redeg yr Hanner Marathon yn Rhydychen yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Yn dilyn salwch hir, bu farw Emyr Davies, Glynteg yn 47oed. Roedd wedi ymladd yn ddewr yn erbyn ei salwch ar hyd cyfnod hir o flynyddoedd ond yn anffodus colodd y frwydr diwrnod cyn ei ben-blwydd yn 48oed. Preifat bu ei angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth a chydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'i rieni Dewi a Bet, gyda'i unig chwaer Delyth, Tegwyn, Rhodri ac Elin a gyda'r perthnasau oll sydd yn byw yn nhalgylch CLONC ond sy'n rhy niferus i'w henwi o dan gwahanol bentrefi'r ardal.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau Mawr i Dave ac Eurnowy Doughty, Highlands, Llanybydder ar achlysur eu priodas Aur ar Dachwedd 11eg. Oddi wrth y Teulu i gyd.

Digwyddiadau Noson tân gwyllt

Bydd pwyllgor y pentref yn cynnal noson 'tân gwyllt' yn y Llew Du am 6 o'r gloch ar y 3ydd o Dachwedd. Mynediad yn £3.00 i oedolion a £1.00 i blant.

Noson canu gwlad

Ar Dachwedd 11eg, bydd yna noson o ganu gwlad gyda Memphis Belle yn y Llew Du. Pris tocyn yw £5.00 a bydd elw'r noson yn mynd i'r cylch meithrin. Os ydych am docyn, ffoniwch y Llew Du ar (01570 480212) neu Bethan ar (01570) 481127.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Heather [Chemist] ben-blwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!

Ysgol Feithrin

Mae'r Ysgol feithrin yn cynnal noson bingo yn y clwb rygbi ar Dachwedd 28ain am 8 o'r gloch.

Ffair Nadolig

Fe fydd yr ysgol a'r Cylch Meithrin yn cynnal ffair Nadolig yn y Llew Du ar y 9fed o Ragfyr am 10 y.b. Adloniant gan y plant a bydd Siôn Corn yn galw heibio.

Diabetes UK Cymru

Cynhaliwyd cyngerdd hwyliog dros ben yn y Llew Du Llanybydder ar 20fed o Hydref er budd y gangen leol o Diabetes UK Cymru. Cyflwynodd Jack Jenkins, cadeirydd y gangen, yr artistiaid sef Bois y Rhedyn, parti o fechgyn o ardal Llanddewi Brefi. Cafwyd gwledd wrth wrando ar yr eitemau amrywiol. Llywydd y noson oedd y cynghorydd Ieuan Davies Elvet House. Cafwyd araith bwrpasol ganddo a rhodd hael iawn at y coffrau. Diolchwyd i bawb am bob cefnogaeth i'r noson gan Jack. Diolch i'r Llew Du am gael defnyddio'r ystafell.

Diolch

Hoffai teulu y diweddar Emyr Wyn Davies, Glynteg, Llanybydder ddiolch yn ddiffuant i bawb am yr holl arwyddion o gydymdeimlad yn bersonol, trwy gardiau, blodau a nwyddau a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth Emyr yn ddiweddar. Hefyd am yr arian tuag at y gronfa ymchwil i M. S. Diolch o galon.



Cylch Meithrin

Bu staff Cylch Meithrin Llanybydder yn seremoni wobrwyo'r Mudiad Meithrin yn Aberystwyth ar yr 20fed o Hydref ac fe enillodd nhw yr ail safle yng Nghymru am eu Hardal Allanol.

Diolch

Dymuna Heather [Chemist] ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd 'special' yn ddiweddar.

Hefyd, hoffai ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi ei ffonio ynglŷn ag iechyd ei chwaer Kathleen, sydd yn dal i fod yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Lle aeth pawb?



Plant ac athrawon Ysgol Ffordd y Bryn (Bryn Road), Llambled, 1939.

Ydych chi'n adnabod rhywun yma? Cysylltwch â ni ar 01570 480683.

Clwb Clonc

Tachwedd

£25 rhif 490 :

Mrs Heather Williams,
Maesflur, Heol Maestir,
Llambled.

£20 rhif 61 :

Geraint Davies,
Hengoed, Heol Llyswen,
Aberaeron.

£15 rhif 89 :

Mrs Ann Davies,
Fferm Olmarch,
Llangybi.

£10 rhif 297 :

Ceris Jones,
Hafod-yr-Wyn,
Gorsgoch.

£10 rhif 67 :

Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer,
Llanybydder.

£10 rhif 33 :

Carys Ffion Davies,
Afallon, Drefach.

£5 rhif 242 :

Arthur Jones,
Blodfryn, Heol-y-Bryn,
Llambled.

Llanbedr Pont Steffan



Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i Elen Thomas, Heol Maestir a gwblhaodd hanner marathon Caerdydd mewn amser parchus iawn o 2 awr 3 munud. Cododd Elen swm o dros £350 ar gyfer Dash Ceredigion, sef elusen leol ac achos teilwng. Llongyfarchiadau i'r bobl leol a gymerodd ran yn hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar: Aled Bowen, Rhys Jones, Dafydd Jones, Irfon Thomas, Daniel Grooby, Elen Thomas a Louis Evans.

Dathlu

Dathlodd Aeron Hughes, Cwmhendryd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod.

Cylch Cinio

Ar nos Iau, Hydref 5ed, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor 2017 -18 Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan.

Y Llywydd eleni yw'r Bnr Richard Marks. Wele gyd-ddigwyddiad hapus iawn gan mai ei Dad, Yr Athro Marks, oedd Llywydd cyntaf y Cylch pan sefydlwyd ef rhyw hanner can mlynedd yn ôl.

Croesawodd ef y cwmni i'r fangre arferol sef y Clwb Rygbi. Wedi cinio i blesio bol y mwyaf barus, cyflwynodd y Llywydd ein siaradwraig wadd - y foneddiges Elin Jones-Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth yn amlwg bod cynrychioli Ceredigion yn y Cynulliad ers y cychwyn yn bwysig iddi.

Cawsom ganddi amlinellu hynod ddiddorol o'i gyrfa ym myd gwleidyddiaeth. Dechreuodd hyn oll yn yr ysgol yn Llanbed pan enillodd yr etholiad dros y Blaid Geidwadol o bopeth. Eglurodd ar unwaith mai efelychu hen ewythr iddi sef J M Evans oedd y rheswm tu ôl i hyn.

Tra'n astudio gradd bellach, cwmpodd mewn cariad -nage, arhoswch eiliad - â Phlaid Cymru. O fewn dim amser, fe'i hetholwyd yn aelod o Gyngor Tref Aberystwyth ac yn nes ymlaen yn Faeres.

Mwy byth oedd ei nod a'i chyrraedd. Pan wawriodd y dydd tyngedfennol "a good morning for Wales" fe'i dewisiwyd i gynrychioli Ceredigion. Dewis hynod ddoeth fel y gwyddom erbyn hyn.

Yn ystod cyn newidiadau yng nghyfansoddiad y Cynulliad, fe 'i dyrchafwyd yn Weinidog Amaeth. Arswydus ond diddorol dros ben oedd ei chlywed yn sôn am yr amryw broblemau dyrys â'i hwynebodd yn ystod y dyddiau cynnar. Eu datrys yn ddi-ffael a wnaeth Elin. Erbyn heddiw, daeth dyrchafiad pellach. Yn nhermau ysgol, mae yn Brif Ferch Cymru ac yn llanw'i lle. Pleser mawr oedd sylweddoli mai er ei bod yn forwyn i'r Frenhines wrth ail agor y Senedd, ei milltir sgwâr sydd nesaf at ei chalon.

Yn ystod y diwrnodau diwethaf - cyfnod dathlu'r Cynulliad - codwyd ambell amheuaeth am ei werth. Wel, mae'n gwbl sicr nad oes gan neb a wrandawodd ar Elin unhyw amheuaeth o'i bwrpas a'i ddylanwad. Mi fyddai colli'r bleidlais wedi bod yn drychinebus i Gymru.

Diolch eto am noson eithriadol ac - mae rhagor i ddod.

Yn dilyn y cyfarfod penderfynwyd cefnogi cais Theatr Felinfach gan noddi £100 tuag at gostau Teilwng yw'r Oen yn Llundain.

Cymdeithas Hanes Llamed

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar gampws Coleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'r siaradwr gwadd oedd David Cooper o Gwmann. Thema'r noson oedd 'Tŵr Llundain: Palas ac amddiffynfa ei Mawrhydi', a bu'r siaradwr yn ystod ei yrfa yn gofalu am yr adnoddau dynol yn y Tŵr. Dangosodd wybodaeth drylwyr am hanes yr amddiffynfa, a thrwy gyfrwng sleidiau, dysgwyd am yr un-ar-hugain o dyrrau sydd ar y safle yn nwyrain Llundain, ei bod wedi cael ei adeiladu yng nghyfnod y Normaniaid, ei berthynas â Llundain Dinesig gerllaw, a'i bwysigrwydd i'r Frenhiniaeth.

Atgoffwyd yr aelodau bod pedair brenhines wedi cael eu dienyddio a'u claddu yno, dangoswyd lluniau o'r ystordy arfau a'r offer arteithio, ac esboniwyd pwysigrwydd y ffaith bod wyth o gigfrain yn cael eu cadw yn y Tŵr. Terfynwyd y noson drwy ganolbwyntio ar gasgliad Tlysau'r Goron,

ac adroddodd David Cooper hanes nifer o'r darnau, yn enwedig y coronau a gedwir yn y Tŵr.

Noddfa

Daeth cynulleidfada deilwng ynghyd i Noddfa ar 15 Hydref i'r Gwasanaeth Diolchgarwch a oedd yng ngofal yr Ysgol Sul a'r cyflwyniad wedi ei lunio gan Janet. Mewn pennill a chân, canolbwyntiwyd ar ran bwysig o'r corff sef ein dwylo. Braf oedd gweld 26 yn cymryd rhan yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u rhieni. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Beca ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Lisa. Bu Osian Roberts, Cerys a Sion Ifan yn cyhoeddi'r emynau ac offrymwyd gweddi gan Delyth a Helen. Darllenwyd adnodaau o'r Beibl yn sôn am Iesu yn defnyddio ei ddwylo i wneud daioni, i fendithio plant ac i weddio gan Sian Rhandir, Iona ac Alwyn. Y llefarwyr oedd Sian Croesor, Elan, Sioned a Ffion. Mwynhawyd datganiad swynol o'r emyn 'Dwy law yn Erfyn' gan Cerys, adroddiad deallus gan Gwenllian a chyflwyniad hyfryd o emyn Verina Matthews yn seiliedig ar y drydedd salm ar hugain gan y merched hynaf.

Cafwyd ymgom ddiddorol gan Llinos, Efan a Sion Ifan yn seiliedig ar hanes y brodyr Albrecht a Frank Durer a'r llun enwog 'y Dwylo'. Pleser fel arfer oedd gwrando ar y plant ieuengaf yn canu a llefaru sef Tudur, Rhun, Ifan, Trystan Bryn, Trystan Wyn, Cai, Lynwen ac Esther gan roi gwên ar wynebau pawb. Diolchwyd ganddynt am ddwylo i wneud amrywiol bethau yn cynnwys chwarae rygbi, helpu ar y fferm, canu'r delyn a'r piano, coginio, ysgrifennu a gweddio. Bu eraill yn diolch am ddwylo rhieni, athrawon, y ffermwyr a'r garddwyr, y doctoriaid a'r nyrsys heb anghofio dwylo ein Gweinidog sy'n agor y Beibl ac yn ein dysgu am hanes Iesu Grist a chariad Duw.



I gloi, ymunodd y plant i gyd gyda brwdfrydedd i ganu 'Mae ganddo'r byd cyfan yn ei Law'. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena gyda Sioned a Janet yn cynorthwyo. Yn ystod yr oedfa bu'r plant yn gwylio ffilm yn dangos Iesu yn derbyn plant bychain ac yn dilyn hyn bu Janet yn holi cwestiynau a'r ymateb yn dda iawn yn enwedig wrth y rhai lleiaf.

Talodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ddiolch haeddiannol i bawb oedd wedi cyflawni eu gwaith mor raenus, i'r rhieni am eu cefnogaeth, i Janet am ei threfniadau manwl a'i syniadau newydd unwaith eto ac yn olaf, i Derek a Roy am baratoi'r llwyfan. Talodd Janet ei gwerthfawrogiad hefyd i bawb am eu cydweithrediad parod ac i Jill am ei gwaith gyda'r offer technegol. Llongyfarchodd Beca ar ennill ei chap cyntaf i Gymru mewn Athletau gan ddymuno'n dda iddi pan fydd yn cystadlu yng Nglasgow ym mis Tachwedd. Hefyd llongyfarchodd Sion, cefnder Beca ar ennill nifer o gystadlaethau rasys beiciau modur ar hyd a lled y wlad. Wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o gyfraniadau y plant, y bobl ifanc a'u rhieni mewn gwasanaeth arbennig i ddiolch i Dduw am ei holl fendithion.

Pen-blwydd arbennig

Ar ddechrau mis Tachwedd bydd Iwan Jenkins, Tyllwyd, Maestir yn dathlu pen-blwydd arbennig. Gobeithio y gwnei di fwynhau'r dathlu!!

Tân Gwyllt

Cynhelir dathliadau Guto Ffowc Ford Gron Llamed yng Ngwili Tractors, tu ôl i'r Clwb Rygbi ar Ffordd y Gogledd, ar nos Sul y 5ed o Dachwedd am 7.00 y nos. Bydd lluniaeth ar gael ar y maes a bydd pob elw yn mynd tuag at achosion da lleol.

Capel Noddfa

Cynhelir Oedfa Deulu ar nos Sul Tachwedd 26 dan ofal Mrs Delyth Morgans Phillips. Croeso cynnes i bawb, dewch i ymuno â ni.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh a Soar

“Noson wirioneddol wych”- dyna oedd barn y gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd i Swper y Cynhaeaf ar nos Iau Hydref 19 yn y festri yn Shiloh a hynny o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol. Huw Jenkins oedd yn llywio y noson a gwnaeth hynny yn ei ffordd naturiol gartrefol drwy gydnabod yn gyntaf ein gwerthfawrogiad i wragedd y ddwy eglwys am baratoi, yn ôl yr arfer, gwledd ar ein cyfer.

Yn gyfrifol am yr adloniant eleni oedd y brawd a'r chwaer Gruffydd a Betrys Llwyd Dafydd o fferm y Gwastod, Abermeurig a chafwyd orig hyfryd yn eu cwmni. Roedd eu hyfforddwraig gerddorol, Eirian Jones, hefyd yn bresennol i gyfeilio a chyflwynwyd nifer o'i chyfansoddiadau yn ystod y noson. Cafwyd amrywiaeth o ddeuawdau, unawdau, cerdd dant ac adrodd (hyfforddwraig Elin Williams) mewn rhaglen ddiddorol a difyr a phawb wedi eu swyno gyda'r fath dalent. Y ddau uchafbwynt oedd yr adroddiad digri gan Betrys am “Dad” a chyflwyniad hyfryd Gruffydd o'r geiriau “Meddwl am Fyd” ar y dôn Genesis.

Gillian Elisa gafodd y fraint o gloi'r noson drwy ddiolch yn enwedig i'r artistiaid ifanc am roi noson mor ddifyr i ni. Pwy a wyr-efallai y West End amdani?

Soniodd Gillian hefyd am y cariad a'r gefnogaeth a dderbyniodd oddi wrth bobl Llanbed yn dilyn ei damwain erchyll.

Bydd y cyfarfod nesaf ar brynhawn Iau Tachwedd 9 am 2 o'r gloch pan fydd Mrs Elsie Jones yn ein tywys ar daith ei thestun “Yma ac Acw”. Mae yna groeso cynnes i bawb.

Gorymdaith a dathliad Gwyl Dewi 2018

Cafwyd cyfarfod agored llwyddiannus ar Nos Lun Hydref 23ain i ddechrau trefnu'n dathliad. Diolch i bawb am ddod. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 27 Tachwedd am 7.30 yn Llain y Castell, Heol y Bryn, Llanbed. Croeso cynnes a dewch i helpu i ddathlu Gŵyl ein nawddsant yn 2018.

Urdd y Benywod Brondeifi

Cafwyd noson agoriadol lewyrchus ym Mrondeifi ar Hydref 12fed pan ddaeth llu o aelodau a ffrindiau i goginio Cyri Cyw Iâr Gwyrdd o dan arweiniad ein gweinidog, Y Parch Alun Wyn Dafis. Roedd pawb yn ymwybodol bod gwledd yn ein disgwyl gan fod ein gweinidog amryddawn yn gyfarwydd â choginio bwyd Thai. Cafodd gymorth yn ei waith gan Sioned, Tanya a Meinir a bu'r tair yn gweithio'n ddiwyd o dan gyfarwyddyd y meistr, yn torri a malu ac ychwanegu'r cynhwysion yn

ôl yr angen. Tra bod y reis yn digoni, a'r past gwyrdd yn cael ei gymysgu, hyfforddwyd ni ynglŷn â'r ffordd Thai o goginio. Gwelsom fod pob un o'r cynhwysion yn ffres, mai saws pysgod [Nam Pia] a ddefnyddir fel halen ac mai o'r goeden palmwydd y daw eu siwgr. Mae eu bwydydd yn gyfuniad o bedwar blas, sef twym, sur, melys a hallt. Roedd y map ar y wal yn gymorth i ni ddeall pam fod cogyddion Thai wedi benthyg syniadau o wledydd cyfagos megis China ac India.

Roedd yr amseru yn berffaith ac ymhen awr roeddem yn mwynhau'r arlwy fendigedig tra'n gwerthfawrogi'r cydweithio parod a fu'n fodd i droi'r cynhwysion amrwd yn wledd flasus.

Diolchwyd i'n gweinidog a'i gynorthwyyr gan Beti, ac i orffen cafwyd te a bisgedi a ddarparwyd gan Eryl, Maureen a Pat. Enillwyd y gwobrau raffl gan Eryl ac Eirlys.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 9fed pan ddaw Graham Jones atom i sôn am waith Beicwyr Gwaed Cymru. Croeso i bawb.

Eisteddfod



Gruffudd Llwyd Dafydd, Abermeurig yn fuddugol ar yr Unawd 10-12 oed gydag Ifan Meredith, Llanbed yn ail yn Eisteddfod Llanarth. Roedd Gruffudd yn fuddugol hefyd ar ganu Emyr dan 12.



Llongyfarchiadau anferthol i dîm pêl droed Llanbed (o dan 10) wrth iddynt ennill twrnamaint cyntaf y tymor yn Llandysul. Dechreuad da i'r tymor. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Cuba Kalinowska am ennill chwaraewr y twrnamaint. Gwych Cuba. Diolch yn fawr iawn i Chris Walters a Paul Jones am hyfforddi.



Da iawn i dîm pel-droed coch a gwyrdd Adran Llanbed am wneud mor dda yn y gystadleuaeth Sirol a llongyfarchiadau i'r tîm coch am ennill y gystadleuaeth. Pob hwyl yn y Genedlaethol.



Cyfle i ddathlu!

Mae'n flwyddyn arbennig i Gymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig Ceredigion eleni gan eu bod nhw'n dathlu eu pen-blwydd yn bump ar hugain. I nodi'r achlysur, lansiwyd llyfr yn cynnwys ffeithiau hanesyddol a channoedd o luniau, yng Nghlwb Rygbi Llanbed. Braff oedd gweld nifer fawr o'r aelodau'n bresennol. Cafwyd bwffe ar ddiwedd y noson a phawb yn mwynhau'r wledd a'r glonc. Y swyddogion ac aelodau'r bwrdd golygyddol sydd yn y llun. O'r chwith- Elgan Evans, Cadeirydd: Lisa Reed, aelod o'r bwrdd golygyddol; Gwyn Jones, Is Gadeirydd: Geraint Jones, Llywydd y Gymdeithas; Daniel Morgan, aelod o'r bwdd golygyddol: John Kirk, Cadeirydd y Cyngor MCC; William Lloyd, aelod o'r bwrdd golygyddol; Lloyd Jones, aelod o'r bwrdd golygyddol ac Ifor Lloyd, Llywydd y Gymdeithas MCC.



Llanbedr Pont Steffan

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o aelodau ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor yn Ysgol Bro Pedr.

Etholwyd y Swyddogion canlynol: Ysgrifennydd Elan, Cadeirydd Zoe ac Is Gadeirydd Lowri Fflur. Cytunodd Geinor Medi a Janet i gario ymlaen fel arweinyddion. Paratowyd rhaglen am y misoedd nesa yn cynnwys hwyl Calangaeaf, chwarae Cyrlio a dathlu'r Nadolig. I ddiweddur noson cymerwyd rhan mewn gêm amrywiol yng ngofal Geinor Medi a chafwyd llawer o hwyl a sbri. Yn dilyn cystadlu brwd a hwyliog, tîm Logan oedd ar y brig, dim ond trwch blewyn o flaen criw Ifan. Diolch yn fawr i Geinor Medi am baratoi mor dda ar ein cyfer.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg byddwn fel aelodau wedi cynnal noson Calangaeaf a chymeryd rhan yn y Gymanfa Garolau yng nghapel Brondeifi ar Ragfyr 3ydd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 7fed o Dachwedd a bydd cyfle i fwynhau 'Cyrlio' gyda Rhydian. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â ni. Tâl aelodaeth yn £7 ond yn codi i £8.50 ar ddechrau Rhagfyr.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Derek a Janet Haulfryn, 1 Maesyllan ddiolch yn fawr i bawb am y llu cardiau, anrhegion, blodau a chyfarfodion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch arbennig i Ysgol Sul Noddfa ynghyd ag Adran ac Aelwyd yr Urdd am eu rhoddion caredig. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr. Bu'n ddiwrnod i'w gofio. Diolch o galon i chi gyd gan gynnwys y person sy'n gyfrifol am y canlynol:

I Derek a Janet

Heddiw hud hen freuddwydion -a'i naws

Sy'n cynhesu'r galon,
A gafael wna atgofion
I euro llu o oriau llon.

Dienw

Oedfa Ennyd Gobaith

Cynhaliwyd oedfa 'Ennyd Gobaith' yn Eglwys San Pedr ar brynawn Sul 22 Hydref i'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan gancr. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan y Canon Andy Herrick. Offrymwyd gweddïau gan Bet Holmes, Parchedig Dai Patterson a Janet Evans a bu'r Parchedig Jill Tomos a Murray Kisbee yn darllen rhannau o'r Gair.

Pleser oedd gwrandao ar gôr plant cynradd Ysgol Bro Pedr dan arweiniad Heledd Bessent a Sandra Davies yn cyfeilio. Swynwyd pawb hefyd wrth wrando ar Unawd swynol gan Trystan Bryn ac Unawd telyn arbennig a theimladwy o safon uchel iawn gan ei fam Georgina Cornock Evans.

Braint oedd cael presenoldeb sylfaenydd oedfa 'Ennyd Gobaith' dros bymtheg mlynedd yn ôl yn Lloegr gyda ni, sef yr Athro Raymond Donnelly oedd wedi teithio gyda'i briod yr holl ffordd o Lerpwl. Datganodd ei lawenydd mawr o weld oedfa 'Ennyd Gobaith' yn cael ei chynnal am y tro cyntaf erioed yng Nghymru. Talodd deyrnged uchel i Steven Holmes am fynd ati i drefnu ac i aelodau eglwysy'r dref am ddod ynghyd i'w gynorthwyo. Cyfeiriodd at Jane, gwraig Steven oedd wedi cael diagnosis o gancr yr ysgyfaint rhyw dair blynedd ôl a bu, yn ystod ei salwch ac ers hynny, yn ysbrydoliaeth i bawb.

Trefnwyd cystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth i ddisgyblion Bro Pedr a'r Prifardd Mererid Hopwood yn beirniadu. Enillydd yr Adran Gymraeg oedd Lucy Hill a bu Pennaeth yr Ysgol sef Jane Wyn yn darllen ei gwaith gyda Rosie N Butler a ddaeth i'r brig yn yr Adran Saesneg yn darllen ei cherdd fuddugol hithau.

Hefyd yn ystod yr oedfa, cafwyd anechriad pwrpasol gan y Parchedig Simon Marshall o Lundain, ffrind Steven a Jane a datganodd ei hyfrydwch o gael bod yn bresennol ar brynawn mor nodedig.

Diolchodd y Canon Andy Herrick yn gynnes iawn i'r cyfranwyr i gyd yn enwedig y rhai oedd wedi teithio o bell, i Steven oedd wedi gweithio'n ddiflino gyda'r trefniadau ac i

aelodau'r eglwys am gynorthwyo, i'r rhai oedd wedi dod â chacenau ac i bawb am eu presenoldeb. Diolch hefyd i Ann Davies a'r chwirydd am drefnu'r lluniaeth ac yn olaf, i Deborah Band am ei gwasanaeth wrth yr organ. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu gyda phaned a chacen. Roedd pawb wedi derbyn bendith yn yr oedfa arbennig hon.

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Cafwyd cyfarfod agoriadol llwyddiannus iawn unwaith eto yn hanes y Grŵp ar 26 Medi wedi'i drefnu gan W D Lewis a'i Fab, sef y cwmni adnabyddus amaethyddol lleol a chefnogol iawn i'r gymdeithas. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Aneurin Davies a throsglwyddodd yr awenau i Dafydd Lewis, W D Lewis a'i Fab. Cyflwynodd Dafydd Rheolwr Yara yng Nghymru, sef Tom Robinson ac yna y ddau siaradwr gwadd, sef Philip Cosgrave a Caroline Hobson hefyd o gwmni Yara. Rhoddodd y ddau gyflwyniad technegol a manwl iawn ar y pwnc dan sylw, sef 'Rol Sylffwr yn Rheoli Glaswellt'. Atebodd y ddau'n drwyadl gwestiynau gan yr aelodau. Paratowyd pryd o fwyd blasus gan y Clwb Rygbi i bawb oedd yn bresennol a noddwyd gan W D Lewis a'i Fab. Roedd nifer o gwmnïau eraill sy'n cyflenwi W D Lewis a'i Fab yn bresennol a chafwyd cyfle i drafod gyda nhw hefyd yn ystod y noson. Talodd yr Is-Gadeirydd, Iwan Williams y diolchiadau.

Rhydian Glyn o Fferm Rhiwgriafol, Talywern, Machynlleth oedd y gwestai ar 10 Hydref yn sôn am ei brofiadau yn cychwyn ffermio ac yntau ddim hyd yn oed yn fab fferm. Roedd Catherine Nakielny o Gyswllt Ffermio yn bresennol hefyd gan fod Rhiwgriafol yn un o ffermydd arddangos Cyswllt Ffermio. Mae'r fferm yn 530 cyfer ar denantiaeth 10 mlynedd. Mae gan Rhydian a'i wraig Elen swyddi eraill hefyd. Maent yn ffermio 600 o ddefaid Cymreig teip Tregaron sy'n cael eu rhoi i hwrdd Cymreig

er mwyn cael ŵyn menyw a rhai i Suffolk teip Seland Newydd ac Aberfield. Maent hefyd yn magu heffrod godro ar gytundeb. Maen nhw'n ceisio gwella'r tir bob blwyddyn ac yn cylchdroi'r pori er mwyn gwneud y mwyafr o'r glaswellt a'r cnydau maent yn tyfu ar gyfer y stoc. Talwyd y diolchiadau gan Eric Jones, Closyrefail gan ddymuno'n dda i Rhydian a'r teulu i'r dyfodol.

Ar 24 Hydref cyflwynodd Aneurin Davies ddau o gwmni Volac Felinfach i ni, sef Elgan Jones, Prif Beiriannydd a Mark Davies, Rheolydd Cyfrifiaduron. Cafwyd sleidiau diddorol a hanes safle Volac - sut y cychwynnodd fel yr MMB, yna Dairy Crest ac erbyn hyn Volac. Mae'r safle'n cynhyrchu cynnyrch o faidd ("whey") ar gyfer pobl ac anifeiliaid ar raddfa eang iawn. Cafwyd hanes hefyd ynglŷn â sut mae'r cwmni'n defnyddio ynni cynladwy - sef y system 'Biomass' ac wedi buddsoddi'n sylweddol ar y safle hyd at yn ddiweddar iawn. Diolchodd Gareth Jones yr ysgrifennydd i'r ddau am eu presenoldeb ac i gwmni Volac am fuddsoddi yn yr ardal a chyflogi nifer fawr o weithwyr lleol.

Bydd Trip y Grŵp Trafod ym Medi blwyddyn nesaf yn mynd i ynysoedd Orkney a Shetland yn yr Alban ac yn cynnwys Mordaith o amgylch yr ynysoedd. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb, cysylltwch ag Aneurin Davies cyn gynted â phosib iddo gael gwneud trefniadau pendant.

Bydd Cinio i ddathlu 40 mlynedd y Grŵp ym mis Ionawr.



Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

4			7		
3			8	9	
5	9	1		6	8
		9		6	1
			3	1	
	7	5		3	
9			7		8
	8		5		7
			6		9

Swdocw Hydref:

Llongyfarchiadau i:

Richard Evans, Godre'r Coed, Olmarch, a diolch i bawb arall am gystadlu: Mair Hughes, Green Meadow, Trefenter; Huw Jones, Brynteg, Caerdydd; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Elma Phillips, Llys Gwyn, Cellan; Eirian Jones, Bro Teifi, Alltlyblaca; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Avril Williams, Y Fedw, Cwmann a Mair Williams, Awelfa, New Inn.

5	7	2	8	3	6	4	9	1
4	8	9	2	7	1	6	3	5
6	1	3	9	5	4	7	8	2
9	6	5	7	1	8	3	2	4
7	3	8	4	2	5	9	1	6
1	2	4	3	6	9	8	5	7
3	5	1	6	8	7	2	4	9
2	9	7	1	4	3	5	6	8
8	4	6	5	9	2	1	7	3



Sarn Helen



Mae'n achlysur arbennig i unrhyw glwb chwaraeon pan fydd aelod yn cystadlu mewn pencampwriaeth byd a dyna wnaeth Gareth Hodgson wrth gystadlu ym mhencampwriaethau byd treialthlon Iron Man yn Kailua-Kona yn Hawaii ar y 14eg o Hydref. Ar sail ei berfformiad yn nhreialthlon Iron Man Dinbych y Pysgod rhyw 15 mis yn ôl yr oedd Gareth yn gymwys i gystadlu yn Hawaii. Mae'r gamp hon yn golygu nofio dwy filltir a hanner yn y môr, yna beicio 180 cilometr cyn rhedeg marathon i orffen - y cyfan heb seibiant. Cwblhaodd Gareth y dasg mewn 11 awr 31 munud a 17 eiliad ac er bod hynny dros awr yn arafach na'i amser gorau, bu'n rhaid iddo ymdopi ag effeithiau anhwylder stumog. O ystyried hynny, roedd hwn yn berfformiad arwrol!

Yn nes adref, fe ymunodd rhai o redwyr y clwb gyda'r miloedd yn ras 10 cilometr blyneddol Abertawe ar y 24ain o Fedi. Daeth Richard Marks yn 3ydd yn nosbarth y dynion dros 60 oed mewn 39 munud a 35 eiliad, rhyw 4 eiliad o flaen ei gyd-aelod Nigel Davies, yntau'n gosod ei amser gorau am y pellter hwn. Yn eu dilyn yr oedd Steven Holmes (44:07) a David Thomas (45:26). Yr oedd Jane Holmes hefyd yn rhedeg i godi arian ac ymwybyddiaeth dros y Roy Castle Lung Cancer Foundation. Enillydd y ras oedd Elias Kiptoo Kemboi (28:20) rhyw 8 eiliad o flaen Dewi Griffiths o glwb Abertawe.

Mae miloedd hefyd yn tyrru bob Hydref erbyn hyn i ras ddinesig arall sef Hanner Marathon Caerdydd a gynhaliwyd ar y 1af o Hydref. Dewi Griffiths oedd y Prydeiniwr cyntaf i orffen (yn 4ydd mewn 61 munud a 33 eiliad) i gadarnhau ei le ymhlith y goreuon. Cafwyd nifer o berfformiadau da gan redwyr y clwb - Ken Caulkett (yn 21ain yn ei ddosbarth mewn 79 munud a 14 eiliad) Simon Hall (87:14) Llewelyn Lloyd (89:00) Nigel Davies (90:03) Carwyn Davies (90:27) Caryl Wyn Davies (92:26) Mark Rivers (93:25) George Eadon (93:16) Thomas Willoughby (95:38) Eleri Rivers (yn 22ain yn ei dosbarth mewn 99:40) David Thomas (100:59) Helen Willoughby (113:00) Delyth Crimes (119:33) Martin Darby (120:27) Anwen Davies (121:07) Fiona Davies (132:21) Jane Holmes (140:13) Adele Botu (146:09) Jane Burtenshaw Jones (146:4) Nicola Higgs (155:35) ac Emma Gray (163:00.)



Un arall o rasys cyfarwydd yr Hydref yw Ras y Ddau Begwn yn Aberystwyth. Cynhaliwyd y ras hon dros gws o ryw 7 milltir i fyny Pendinas a Constitution Hill ar yr 8fed o Hydref a bu rhedwyr y clwb yn llwyddiannus iawn. Enillwyd ras y dynion gan Ken Caulkett (47 munud a 10 eiliad) ac enillwyd ras y menywod gan Dee Jolly (56:54). Ar ben hynny, daeth Tony Hall yn gyntaf yn nosbarth y dynion dros 60 (61:01) a daeth Huw Price yn 3ydd ymhlith y dynion dros 50. Gorffennodd Tomos Morgans mewn 55 munud a 42 eiliad, rhyw 2 eiliad o flaen Michael Davies. Roedd rasys ieuenctid yn rhan o'r achlysur a chafodd y clwb lwyddiant yn rhain hefyd gyda Rhys Williams yn ennill ei ras (12 munud a 19 eiliad) o flaen Jack Caulkett (15:46) Sean Wood (18:06) a Violet Caulkett (19:09). Cafodd Maddie a Poppy Caulkett fedalau hefyd am orffen eu ras filltir hwy.



Enillwyd ras y dynion yn Ras y Begwn gan Ken Caulkett.

Mae'r Hydref yn gweld cychwyn y tymor trawsgwlad a Chynghrair Trawsgwlad Gwent yw'r brif gystadleuaeth yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyntaf o bum cyfarfod yn Llandaf ar y 14eg o Hydref ac roedd pedwar aelod o'r clwb yno. Gwnaeth Rhys Williams yn arbennig i ddod yn 22ain yn y ras i fechgyn dan 13. Cwblhaodd Ellen Page y ras 6 cilometr i fenywod mewn 35 munud gyda Susan Jenkins yn dilyn rhyw 25 eiliad ar ei hôl ac yn 32ain yn ei dosbarth. Gobeithio y bydd mwy o redwyr y clwb yn cystadlu yn y gyfres safonol a thra chystadleuol hon.

Ar y 24ain o Hydref, aeth rhai o redwyr y clwb i Landeilo i redeg

ras 10 cilometr ym Mharc Dinefwr. Steven Holmes oedd y cyntaf ohonynt i orffen mewn 43 munud a 30 eiliad gyda David Thomas yn dilyn (52:50) ac yn ennill dosbarth y dynion dros 50 dipyn o flaen Mick Taylor (56:04) yn ei ras gyntaf wedi anaf. Yn yr un ras daeth Dawn Kenwright yn ail yn nosbarth y menywod dros 45.

Un arall o aelodau'r clwb sy'n cyfuno rhedeg a beicio yw Martin Darby. Ar yr ail o Fedi, bu'n cymryd rhan yn y Wiggle Tempest Sportive yn Warwick gan feicio 70 milltir mewn 4 awr a 21 munud cyn rhedeg ras 10 cilometr Caerdydd drannoeth.

Yn olaf, aeth 5 o redwyr y clwb i Ras Goffa Ron Skilton yn Llanwrtyd ar yr 22ain o Hydref, ras lwybr anodd dros bellter hanner marathon. Cafodd Simon Hall hwyl arbennig arni gan ddod yn 4ydd yn y ras mewn 101 munud gyda Llewelyn Lloyd yn 8fed mewn 106 munud a 29 eiliad. Bydd nifer o'r rhedwyr yn rhedeg marathon Eryri ar yr 28ain o Hydref - pob lwc iddyn nhw. Daeth Calvin Williams yn 21ain ond yn ail ymhlith y dynion dros 50 mewn 120 munud, ychydig o flaen Tony Hall (122 munud ac 1 eiliad ac yn ail ymhlith y dynion dros 60). Yn eu dilyn, gorffennodd Huw Price mewn 125 munud a 23 eiliad a Mick Taylor mewn 126 munud a 53 eiliad. Roedd y 5 ohonynt yn y traean uchaf yn y ras.

Bydd nifer o'r rhedwyr yn rhedeg marathon Eryri ar yr 28ain o Hydref - pob lwc iddyn nhw.

WINDY CORNER

Coaches

Teithiau Dydd 2017

02/12/17

Marchnad Nadolig Caerfaddon

09/12/17

Marchand Nadolig Almaenaidd Birmingham

16/12/17

Abertawe Panto Doilg, Siopa a Winter Wonderland

Am Fwy o Wybodaeth, Ffoniwch 01559 384 779

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Daeth llwyddiant ysgubol i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 wrth iddynt ennill cystadleuaeth Minecraft a drefnwyd gan fudiad Cered i Ysgolion Sir Ceredigion. Derbyniodd Beiron, Ryan a Caleb dlws hyfryd – llongyfarchiadau fechgyn. Derbyniodd Robyn Jones, disgybl ym mlwyddyn 3, lun arbennig gan Shelley o Tŷ Hafan am iddi lwyddo i godi swm o £1739.59 tuag at yr elusen teilwng yma drwy ddringo'r Wyddfa. Llwyddodd yr ysgol hefyd i gyfrannu £326.86 tuag at y cyfanswm drwy gynnal gwerthiant cacennau. Llongyfarchiadau mawr Robyn a diolch i bawb a wnaeth gefnogi.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 brynhawn arbennig yn Eglwys Sant Pedr Llambled yn gwyllo Canon Andy yn bedyddio'r ddoli ac yn dysgu am rannau'r Eglwys. Diolch yn fawr iddo am roi o'i amser prin ac am lwyddo i drosglwyddo'r negeseuon mewn ffordd hynod o hwylus i'r disgyblion. Daeth Miss Sarah i wneud gwasanaeth yn yr ysgol a chafwyd neges bwrpasol iawn ganddi hi hefyd am gymorth Iesu ar ffurf weledol. Diolch i'r disgyblion sydd wedi paratoi bocsys Nadolig yn llawn nwyddau i'w hanfon i blant yn Romania – byddant yn cychwyn ar eu taith bell ddechrau'r mis. Mae disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 wedi bod yn cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau beicio a sgwro gydag aelodau staff Sustrans a Ceredigion Actif. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau canu a dawnsio yn "Sbri-diri'r Urdd" a chael hwyl wrth gyfarfod â Mr Urdd. Cafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 daith hyfryd i'r Felin Wlân a'r Amgueddfa Deganau a dysgu llawer o ffeithiau diddorol – diolch i Mrs Young am drefnu ac i'r staff i gyd am eu gofal. Bu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd a diolch i Mr Thomas am eu hyfforddi. Cawsant ddiwrnod llwyddiannus iawn gan lwyddo i ennill o fewn y grŵp, ennill y rownd gyndderfynol a chyrraedd y ffeinal a dod yn ail yn y gystadleuaeth. Da iawn chi Rhun, Regan, Michael, Dewi, Kai, Immanuel, Antoni, Jake, Elis a Cameron. Bu nifer o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn gwneud gweithgareddau diddorol a symbylus gyda Miss Heini yn y llyfrgell a diolch iddi am ei pharatoadau.




Beiron, Caleb a Ryan disgyblion ym mlwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr yn derbyn tarian a thystysgrifau gan Rhodri Francis am ennill cystadleuaeth Minecraft Ceredigion a drefnwyd gan fudiad Cered. Llongyfarchiadau mawr i chi fechgyn.



Côr cynradd Ysgol Bro Pedr a fu'n perfformio yn y Gwasanaeth Gobaith yn Eglwys Sant Pedr. Diolch i'r disgyblion, i Miss Heledd Besant am hyfforddi ac i Miss Sandra Davies am gyfeilio. Llongyfarchiadau hefyd i'r disgyblion o'r Campws hŷn a fu'n fuddugol am ysgrifennu barddoniaeth ar gyfer y gwasanaeth sef Iaf Twm Ebbsworth a Rosie Nasr Butler, 2il Lucy Hill a Nia Davies a 3ydd Beca Roberts ac Elain Williams.



Tîm rygbi Ysgol Bro Pedr yn dod yn ail yn nhwyrnamaint Sirol yr Urdd. Llongyfarchiadau i chi fechgyn a diolch i Mr Thomas am hyfforddi.



Robyn Jones disgybl ym mlwyddyn 3 Ysgol Bro Pedr yn derbyn tystysgrif a darlun arbennig gan Shelley ar ran Tŷ Hafan am iddi lwyddo i godi swm o £1739.59 tuag at yr achos teilwng hwn drwy gerdded yr Wyddfa. Llwyddodd yr ysgol hefyd i gyfrannu £326.86 tuag at y cyfanswm drwy gynnal gwerthiant cacennau. Llongyfarchiadau mawr Robyn a diolch i bawb a wnaeth gefnogi.



Disgyblion blynyddoedd 1 a 2 Ysgol Bro Pedr yn gwyllo Canon Andy Herrick yn bedyddio'r babi yn Eglwys Sant Pedr Llambled.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedd
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedd

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Cyfaredd Caryl

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i Golwg erbyn hyn yw'r ddarlith flynyddol i gofio am Islwyn Ffowc Elis.

Dyw pawb y tu allan i ardal Clonc ddim yn cofio mai yn Llanbedd y treuliodd o ran helaeth o'i oes ... mae'r rhai sy' yn cofio am ei anwylydeb o ac Eirlys.

Ar y llaw arall, efallai nad oedd pawb o bobol yr ardal yn sylweddoli awdur mor bwysig oedd yn ein mysg; roedd Islwyn Ffowc mor dawel a di-ffws fel y gallech chi feddwl nad oedd o wedi cyflawni dim o bwys eioedd.

Ond mae ei nofel, Cysgod y Cryman, yn parhau i fod yn nofel fwya' poblogaidd Cymru a sawl un o'i nofelau llai enwog a ddilynodd yn haeddu eu darllen eto.

Un nofel sy'n dechrau herio campwaith Islwyn Ffowc ydi Martha, Jac a Sianco gan Caryl Lewis a hi oedd yn rhoi'r ddarlith eleni – awdur mwya' poblogaidd y ganrif yma yn siarad yn enw awdur mwya' poblogaidd y ganrif gynt.

Ac roedd hi'n gyfareddol, wrth dynnu byd natur a sgrifennu at ei gilydd, cymharu cerdd i gragen droellog, nofel i goeden sydd â'i gwreiddiau ynghudd o dan ddaear a stori fer i bluen sy'n siâp perffaith, diwastraff, o boptu i asgwrn cefn cry'.

Roedd ei disgrifiad o ddarllen barddoniaeth fel treiddio i mewn i grombil y gragen yn ddarlun i aros yn y co' a'r gymhariaeth efo'r goeden yn wers i bawb sy'n trio sgrifennu. Peryg llawer o nofelau Cymraeg ydi trio dangos y gwreiddiau hefyd ... er mai gwywo wnan' nhw wedyn.

Ryden ni'n dueddol o esbonio popeth; egluro pam fod cymeriad yn gwneud hyn a hyn a dangos yn union sut y mae pobol yn teimlo, yn hytrach na gadael i hynny godi o'u hymddygiad a'u geiriau nhw. Wedi'r cyfan, yn ein bywydau go iawn, ryden ni'n gorfod trio dyfalu beth ydi amcanion pobol eraill.

Roedd y goeden yn fy atgoffa i hefyd o sgwrs a ges i ryw dro wrth droed Cadair Idris a naturiaethwr yn egluro sut yr oedd math arbennig o dyfiant a choed mewn coridor arbennig o dir. Hynny oherwydd natur y graig a'r pridd islaw – dyfnder y ddaear yn dod i'r amlwg yn y planhigion ar yr wyneb.

Roedd dechrau'r ddarlith yn ddifys, yn sôn am y math newydd o lyfrau sy'n amlwg yn Saesneg bellach; rhai sy'n chwilio am gyfrinachau ysbrydol bron ym myd natur; yn canolbwyntio ar un elfen neu ddarn o dir a rhamantu yn eu cylch.

Roedd y rheiny'n fy atgoffa fi o'r llyfrau cwciô fydd yn llenwi'r silffoedd rhwng hyn a'r Nadolig; lluniau llawn lliw a rysaits moethus. Dw i'n rhyw feddwl y byddan nhw'n cael eu prynu gan bobol sydd byth braidd yn mentro i'r gegin eu hunain.

Fel yr ydyn ni'n pellhau oddi wrth fyd natur, rydyn ni'n chwilio am ryw fath o iawn am hynny – natur hyd braich – ac wrth i ni ymdrybaeddu mewn bwydydd ecsotig, rydyn ni'n cilio oddi wrth y peth ei hun, y bwyd craidd sydd angen ei drin a'i drafod.

Mae natur yn saff wedi ei gau i mewn i lecynnau penodol ac mi allwn ni delynegu yn ei gylch; mae bwyd yn iawn wedi ei becynnu, heb inni orfod trafod y gwaed a'r gïau neu, os ydyn ni'n llysiuwyd, y pridd a'r baw.

Un o'r pethau doniol i fi ydi canolfannau nofio gyda thonau artiffisial yn cael eu codi ar lan y môr. Neu wal ddringo ynghanol Eryri. Natur gwneud a ninnau'n hapus os gallwn ni reoli'r elfennau yn hytrach na bod ar eu trugaredd nhw.

Roedd Caryl yn sôn am y patrymau sy'n gyson ym myd natur; mae yna batrymau cyson yn ein hymddygiad ninnau hefyd.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbedd



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbedd, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Mae'n gwasanaethu'r
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdLewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbedd**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Cwmsychpant

Priodas

Ar ddydd Sadwrn 1af mis Hydref fe unwyd mewn glân briodas Carys Mair Evans, Penffordd ac Owain Dafydd o Ruthin yng Nghapel y Cwm. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Wyn Thomas a Meinir Davies oedd wrth yr organ. Pob bendith i chi eich dau am flynyddoedd mawr o hapusrwydd.

Capel y Cwm

Cwrdd Diolchgarwch y Plant



Ar fore Dydd Sul, Hydref 15fed gwelwyd Capel y Cwm yn gyfforddus lawn i gwrdd Diolchgarwch y plant. Bu aelodau'r Ysgol Sul yn gwneud eitemau drwy lefaru a chanu ar thema 'Llyfrau'. Wrth yr organ yn cyfeilio roedd Mrs Carys Griffiths-Jones ac fe fu'r Parch Wyn Thomas yn sgwrsio gyda'r plant am wahanol lyfrau wedyn. Diolch i'r holl blant am oedfa fendigedig ac fe aeth arian y casgliad i goffrau'r Ysgol Sul. Diolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth i'r plant ar y diwrnod.

Cwrdd Diolchgarwch

Ar Nos Iau yng nghanol mis Hydref, a'r noson yn ddigon diflas y tu allan, daeth tyrfa gref i'r Cwrdd Diolchgarwch blynyddol. Y Parch Wyn Thomas a gyflwynodd y Canon Chris Bolton o Landysul. Cafwyd ganddo araith bwrpasol yn llawn hiwmor a oedd yn mynd lawr yn dda iawn gyda'r ieuenctid a'r plant a oedd yn bresennol. Wrth yr organ oedd Mrs Eleri Jenkins, Llain Deri, Alltyblaca ac fe ddiolchwyd i bawb gan y gweinidog, Y Parch Wyn Thomas.

Gwellhad buan

Anfonwn ein cofion i'r Parch Wyn Thomas, gweinidog Capel y Cwm sydd ddim wedi bod yn hwylus o gwbl yn ystod diwedd mis Hydref. Mae e wedi bod yn Ysbyty Treforys a gobeithio erbyn daw Clonc o'r wasg y bydd e adref yn gwella.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gydag Elenid, Eifion a'r teulu yn eu profedigaeth yn ystod y mis o golli ewythr a hen ewythr sef Dewi Jones o Horeb.

Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion

Bu sawl un o ieuenctid yr ardal yn cymryd rhan yn Niwrnod Maes y Sir ym Mart Tregaron ar ddechrau'r mis. Llongyfarchiadau gwresog i bawb, boed yn aelod o Glwb Pontsian neu Lanwenog ac fe welir adroddiad manwl yng ngholofn y mudiad yn y rhifyn yma.

Gwellhad Buan

Yn ystod y mis diwethaf bu Roy Rees, Pantronnen yn derbyn gwahanol driniaethau yn Ysbyty Glangwili. Gobeithio Roy eich bod yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn.

Tip-It

Cynhelir noson o Tip-It yn Festri Capel y Cwm ar nos Wener, Tachwedd 24ain am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.

Colofn y C.Ff.I.



AGM Cymru, Aber

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CFfI Cymru yn Aberystwyth ar benwythnos olaf mis Medi. Braff yw nodi ein bod ni fel Sir wedi ennill Tlws yr Arad am y Sir orau yng Nghymru am 2016-2017 a'r aelodau iau ar y brig yn ennill Tlws Beynon Thomas i'r Adran Iau orau yng Nghymru am 2016-2017.



Llongyfarchiadau i'r aelodau canlynol am gael eu hethol fel swyddogion pwyllgorau Cymru: Angela Evans, Tregaron, Cadeirydd Pwyllgor Rhyngwladol; Alaw Mair Jones, Felinfach, Is-gadeirydd is-bwyllgor Fforwm CFfI Cymru a Geraint Lloyd, Lledrod, Llywydd C.Ff.I. Cymru.

Diwrnod Maes

Tyrrodd aelodau o bob cwr o'r sir i gystadlu yng nghystadleuaeth gyntaf y mudiad ym mart Tregaron ar y 7fed o Hydref. Diolch o galon i'r holl feirniaid a'r stiwardiaid am gynorthwyo er mwyn sicrhau diwrnod llwyddiannus. Dyma'r canlyniadau:

Canlyniadau: **Beirniadu Stoc Dan 14** - 1af: Felinfach - Rhys Jones, Huw Jones, Ela McConochie a Gruffydd Scourfield. **Beirniadu Stoc Dan 18** - 1af: Llanwenog - Ben Lewis, Osian Davies, Owain Jones ac Elin Davies. **Beirniadu Stoc Dan 26** - 1af: Llangwyrfon - Dyfrig Williams, Eiry Williams, Dyfan Ellis Jones a Sion Ellis.



Unigol - Stocmon Hŷn: Delyth Jones, Tregaron. **Stocmon Iau:** Beca Jenkins, Pontsian [llun ar y chwith]. **Stocmon Dan 14:** Angharad Evans, Llanddewi Brefi. **Ffensio Hŷn** - 1af: Llangeitho. **Ffensio Iau** - 1af: Lledrod. **Trimio Oen** - 1af: Talybont. **Torch Nadolig** - 1af: Cari Davies, Tregaron. **Tractor a Loader** - 1af: Glyn Hughes, Mydroilyn. **CFfI Byw** - 1af: Llanwenog [llun isod]. **Fferm Ffactor** - 1af: Troedraur. **ATV** - 1af: Troedraur. **Canlyniadau terfynol:** 1af: Llangwyrfon. 2il: Felinfach. 3ydd: Mydroilyn.



Clwb 200

1. Gwyneth Ayers, Hydd Gwyn, Llandre, Llanpumsaint
2. Elin Calan, Penbryn Mawr, Trefenter
3. Emyr James, Pen y Geulan, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth

Dyddiadau i'r dyddiadur

2 + 4 Tachwedd: Eisteddfod CFfI Ceredigion, Pafiliwn Pontrhydfendigaid
8 Tachwedd: Hyfforddiant Barnu Carcas, Dunbia
15 Tachwedd: Pwyllgorau'r Sir
18 Tachwedd: Eisteddfod CFfI Cymru, Venue Cymru, Llandudno
24 Tachwedd: Chwaraeon Dan Do
27 + 28 Tachwedd: Ffair Aeaf, Llanelwedd

Drefach a Llanwenog

Capel Brynteg



Mewn gwasanaeth Cymun prynhawn Sul ddechrau mis Hydref, hyfryd oedd cael derbyn tri o'n hieuenctid yn gyflawn aelodau, - a'r tri hynny o'r un teulu, sef Meleri, Rhys ac Elin Davies, Tyngrug-isaf. Croesawyd hwynt yn gynnes gan y gweinidog, y Parchedig Ddr Rheinallt Davies, a dymunodd yn dda i'r tri gyda'u gyrfaoedd; Meleri wedi dechrau nyrsio yn Ysbyty Treforus, Rhys wedi cychwyn ar Gwrs yn yr Ysgol Feddygol yng Nghaerdydd, ac Elin yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed.

Yn yr un gwasanaeth cydnabyddwyd yn ddiolchgar bod dros £1,800 wedi ei gyflwyno i'r Capel er cof am Rod Davies, Croesmaen; roedd Rod yn hen-ewythr i'r tri ifanc hyn. Gobeithiwn erbyn i Clonc ddod o'r wasg bod Rosie yn teimlo'n well, wedi ei chymeryd yn sâl tra ar ymweliad â'r Gogledd, ac wedi gorfod treulio peth amser yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

Gyda thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Meryl Griffiths, Trawscoed, - gynt o Gefnrhuddlan-isaf, dau ddiwrnod cyn ei phen-blwydd yn 62 oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu cyfan, Sion ei phriod, Llŷr a Sioned, ac â Megan ei mam. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol cyhoeddus ym Mrynteg ar y 12fed o Hydref o dan ofal y Gweinidog.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Capel ar yr 17eg o fis Hydref, a'r Parchedig Carys Ann Lewis yn gwasanaethu. Daeth ag offer gweledol ganddi, a chafwyd gwasanaeth bendithiol drwy lun a neges lafar.

Ysgol Dyffryn Cledlyn



Daeth ymwelydd arbennig i'r ysgol ddechrau'r mis, sef Casia Wiliam, Bardd Plant newydd Cymru. Bu'n cydweithio gyda disgyblion yr adran Iau ac yn eu hysgogi i greu cerddi a barddoniaeth am greaduriaid dychmygol a bwystfilod. Ymatebodd y plant yn wych a sbardunwyd eu doniau creadigol. Pleser hefyd yn ystod y dydd oedd croesawu Rhodri Gomer a chriw rhaglen 'Heno'. Buont hwythau'n ffilmio'r gweithgareddau a gwelwyd nifer o'r plant yn cael eu cyfnewid ar y rhaglen y noson honno.

Daeth plantos Cyfnod Sylfaen ysgolion yr ardal i ymweld â'r ysgol ar gyfer sioe yr Urdd - Sbri Di Ri. Roedd y Neuadd yn llawn a phawb yn mwynhau canu a dawnsio i ganeuon cyfarwydd Cymreig. Fel mae'r teitl yn awgrymu, cafwyd Sbri di ri go iawn!

Llongyfarchiadau mawr i Meredydd Davies blwyddyn 6 a Steffan Jarman blwyddyn 5 ar gael eu dewis i garfan rygbi Sir Ceredigion. Maent eisoes wedi chwarae eu gêm gyntaf. Da iawn fechgyn.

Bu Mari Rhian Owen ar ymweliad i adran y Cyfnod Sylfaen i gydweithio gyda'r disgyblion mewn gweithdy drama. Buont yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau gwranddo ac ymateb. Sesiwn hyfryd.

Gwledd i'r glust yn wir oedd clywed doniau amryddawn Mr Ebbsworth wrth iddo ganu ei ukulele! Cafwyd caneuon cyfarwydd yn ogystal â rhai byrfyfyr yn ei repertoire. Roedd y plant wrth eu bodd.

Bu'r disgyblion yn ffodus iawn hefyd i gael cyfle i weld y ddrama 'Nid Fi' gan gwmni Arad Goch. Y brif neges yn y ddrama oedd ystyried effaith bwlio yn yr ysgol. Roedd yr actio'n wych a daeth y neges drwyddo mewn ffordd gryf ac effeithiol. Diolch yn fawr iawn iddynt. Mae clwb Urdd yr ysgol yn parhau i ddenu y niferoedd gyda dros 70 o blant yn mynychu. Cawsant gyfle yn yr wythnosau diwethaf i gyfeiriannu (Orienteering), a gwneud gwaith celf yn ymwneud â Chalan Gaeaf a'r Hydref. Aeth tîm o ferched blynyddoedd 5 a 6 i gystadlu mewn trwnamaint rygbi tag a drefnwyd gan yr Urdd yn Aberaeron. Cafwyd diwrnod da iawn ac enillwyd nifer o gêmiau, Da iawn chi ferched.



Bu aelodau o bwyllgor Siarter Gymraeg Dyffryn Cledlyn yn brysur yn trefnu gweithgareddau ar gyfer dathlu Diwrnod T Llew Jones. Yr aelodau yw Elen Morgan, Lowri Rees, Jac Rees, Steffan Jarman, Fflur Morgan, Erin Potter Jones, Elis Jenkins, a Sion Jones. Trefnwyd Helfa Drysor lle roedd y plant yn datrys cliwiau er mwyn dod o hyd i lyfrau yr awdur o gwmpas yr ysgol. Buont yn ymchwilio ar y we, ysgrifennu cerddi, creu taflenni gwybodaeth a chreu dawnsfeydd i gyfateb â'r gerdd Dawns y Dail. Gosodwyd nofelau T Llew Jones i sillafu ei enw allan ar lawr y Neuadd hefyd fel rhan o'r dathlu. Roedd hwn yn ddiwrnod da iawn.



Thema yr adran Iau yn ystod y tymor yw Y Rhyfel Byd Cyntaf a dathlu canmlwyddiant marwolaeth y Bardd Hedd Wyn. Trefnwyd bod Cwmni Drama 'Mewn Cymeriad' yn ymweld â'r ysgol i roi cyflwyniad o hanes Hedd Wyn i'r plant. Gwelwyd perfformiad bywiog lle roedd cyfle i'r plant gymryd rhan ganolog yn y sioe, ffordd wych i ddysgu ac i werthfawrogi'r hanes. Mae cwmni Eleri Twynog yn mynd o nerth i nerth ac yn rhoi cyfleoedd gwyb i blant ddysgu am gymeriadau hanesyddol pwysig.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Cychwynnodd cyfarfodydd y gaeaf ym mis Hydref, gan gwrdd yn Neuadd y Pentref, Drefach. Estynnwyd croeso i'r 15 o'r aelodau a oedd yn bresennol gan Dilwen George, y Cadeirydd, a braf gweld Gwyneth Morgans, Pensarnau yn ymuno â ni. Hyfryd oedd gweld Dan ac Irene Jones nôl yn ein plith wedi i'r ddau gael cyfnod o anhwylder dros misoedd yr haf.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Jean Evans, a chofiwyd am gyn-aelod ffyddlon, sef Mair Davies, Dolwerdd, a bu farw yng Nghartref Min-y-môr.

Aed ymlaen wedyn i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, ac yn ei adroddiad, dywedodd y Cadeirydd ein bod wedi cael cyfarfodydd arbennig dros misoedd y gaeaf, a thripliau'r haf yn neilltuol. Diolchwyd i bawb fu'n cyd-weithio gyda'r trefniadau. Cafwyd adroddiad ariannol trylwyr gan Brenda Jones, y Trysorydd, a'r coffrau'n ffafriol.

Wrth ethol swyddogion, dymunodd Irene Jones gamu lawr fel Is-gadeirydd, ond ail-etholwyd y gweddill fel y llynedd. Trefnwyd dyddiadau, man cyfarfod a siaradwyr y gaeaf, ac wedi cau'r Cyfarfod Cyffredinol, mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi gan chwirydd Capel Bethel Drefach.

Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mercher, Tachwedd 8fed, am 1.30 ym ym Ffestri Capel Seion Cwrtnewydd, pan fydd Brenda Jones yn rhoi hanes Cwrtnewydd. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Santes Gwenog

Y Parchedig Julian Finney, ficer Llanrhystud a Llanddeiniol oedd y cennad gwadd yng Ngwasanaeth Diolchgarwch yr Eglwys ddechrau mis Hydref. Diolchwyd yn gynnes iddo am ei neges gan y Parchedig Suzie Bale. Wedi'r gwasanaeth mwynhawyd swper y Cynhaeaf yn yr Eglwys fach; diolchwyd i'r gwragedd a fu'n paratoi'r wledd, a'r rhai a fu wrthi'n trefnu'r blodau hyfryd gan y Ficer.

Ar yr 28ain o fis Hydref, priodwyd Miss Siwan Davies, Llysderi a Mr Emyr Richards, Maesglas, Caio yn yr Eglwys. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu cartref yn Llambled.

Llongyfarchiadau i Pauline Roberts-Jones ar enedigaeth ail wyres iddi. Ganwyd Ani Morgan-Jones i Rhys ac Anwen yn Aberystwyth, - cyfnither i Isobel, merch fach Daniel ac Emma yng Nghaerdydd.

Llongyfarchwn gangen Sefydliad y Merched, Llanwenog ar ddathlu eu pen-blwydd yn 70 oed. Cynhaliwyd dathliad o'r achlysur yn yr Eglwys ar Hydref 14eg.

Dymunwn wellhad buan i bawb

sydd yn anhwylys naill ai adre neu mewn ysbyty, a chydymdeimlwn yn ddiffuant â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb Cant mis Hydref: 1. Iwan Evans, Coed Fardre, Llandysul; 2. Dion Davies, Fronheulog, Llanwenog; 3. Liz Tipping, Ottawa, Llanwenog.

Sefydliad y Merched

Y mis yma, bu Sefydliad y Merched, Llanwenog yn dathlu eu pen-blwydd yn 70 oed.

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 14 daeth aelodau, cyn aelodau, gwesteion o'r Sir a gwahoddedigion o'r Sefydliad gan gynnwys Cadeirydd Cymru, Mrs Mair Stevens ynghyd i Eglwys Llanwenog. Bu'r ficer, y Parch Suzy Bale yn canu'r delyn i groesawu pawb.

Yna daeth Côr Lleisiau'r Werin, dan arweiniad Mrs Elonwy Davies i ganu rhaglen hyfryd o ganeuon, - roedd yn fwynhad pur. Ymunodd pawb i ganu Jerusalem, arwyddgan y Mudiad.

Diweddgo'r prynhawn oedd te ac wrth gwrs amser i gymdeithasu gyda ffrindiau hen a newydd.

Diolch yn fawr i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y dydd - a phob dymuniad da am y dyfodol.

Sul y Cofio

Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio ar y 12fed o Dachwedd am 2 ym tu allan i'r gofologfn ar sgwâr Drefach dan ofal Y Ficer Suzy Bale. Bydd maes parcio Ysgol Dyffryn Cledlyn ar agor er mwyn i'r cyhoedd ei ddefnyddio.

C.Ff.I. Llanwenog

Cynhaliwyd Diwrnod Maes y Sir ar ddydd Sadwrn y 7fed o Hydref yn Mart Tregaron. Cafodd y Clwb lwyddiant eleni eto ac ar ddiwedd y dydd daethant yn 4ydd.

Yng nghystadleuaeth y 'Cffi Byw', roedd tîm hyd at 4 yn gorfod dangos dawn, sgil neu grefft a oeddent wedi'i ddysgu'n ddiweddar wrth fynychu'r Clwb. Bu Nia Morgans, Sioned Davies, Hafwen Davies a Lois Jones yn siarad am arwyddion iaith a llwyddwyd i gipio'r wobr gyntaf. Da iawn ferched.

Fe gafodd tîm y 'barnu stoc iau' lwyddiant hefyd wrth ddod i'r brig. Daeth Owain Jones yn 3ydd, Elin Davies yn 4ydd ac Osian Davies yn 5ed. Yn y tîm hefyd oedd Ben Lewis.

Daeth tîm Hŷn 'codi Ffens' yn 3ydd a'r tîm iau yn 5ed. Bu Ben Lewis a Guto Ebbsworth yn cystadlu yn y 'Fferm Ffactor' a daethant yn 7fed. Canlyniadau ffantastig a diolch am yr holl ymdrech.

Rydym ar hyn o bryd yn ymarfer

yn brysur ar gyfer yr Eisteddfod Sir. Felly os ydych chi am ddod i'n cefnogi, fe welwn ni chi ym Mhontrhydfendigaid ar yr 2il a 4ydd o Dachwedd. Gobeithio felly y bydd holl ganlyniadau'r diwrnod yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau



Erin Fflur Morgan, Alltwalis yn Fuddugol ar yr Alaw Werin a'r Cerdd Dant dan 12 oed ac Elen Morgan, Drefach, Llanybydder yn ennill ar y Llefaru 10-12 oed yn Eisteddfod Llanarth.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Meri Elen Morgan, Rhydyfelin am basio Gradd 1 ar y piano o dan nawdd y 'London College of Music'.

Dathlu

Ar ddechrau mis Hydref dathlodd Ffion Caryl, Llwynrhos ei phen-blwydd yn 18 oed.

Hefyd, dathlodd Andrew, Glynfaes ei ben-blwydd yn 30 oed.

Dymuniadau gorau i chi eich dau i'r dyfodol.

Cydnabyddiaeth

Dymuna Gareth, Mary, Eileen, David a theulu'r diweddar Mair Davies, Dolwerdd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt adeg colli mam, mam yng nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu annwyl.

Teithio

Mae dau o fechgyn ifanc Drefach wedi mynd allan i deithio i ben draw'r byd sef Carwyn Evans, Murmur-y-Nant i Awstralia a Tomos Evans, Vale of Cledlyn i Seland Newydd. Roedd y ddau yn gadael ar yr un diwrnod! Dymuniadau gorau i chi eich dau a chofiwch ddod nôl yn saff.

Profiadau Amaethu

'Ffermio - O Oes i Oes'. Panel o ffermwyr lleol yn siarad am eu profiadau o amaethu ar hyd yr oesoedd sef Dai Rees, Penlan noeth, Ieuan Jones, Pwllbilwg a Huw Evans, Alltgoch gyda Heilyn Thomas yn cadw trefn ar nos Fercher, Tachwedd 29ain yn nhafarn y Grannell, Llanwnnen i ddechrau am 8 o'r gloch.

Talyllychau

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Megan Morris, Ysgubor Fawr, Talyllychau am basio Gradd 1 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y 'London College of Music'. Mae Megan ym Mlwyddyn 4 Ysgol Bro Pedr ac fe gafodd farciau llawn yn y theori, yn y gwaith technegol ac mewn un darn.



Megan Morris, Talyllychau yn ennill y tlws am Ganu Penillion dan 12 oed yn Eisteddfod Felinfach.

Cwrtnewydd



Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu, Cwrtnewydd yn cipio tri thlws yn Eisteddfod Felinfach - Cyntaf Llefaru 8-10 oed; Cyntaf Canu Emyr dan 9 oed a chyntaf ar yr Alaw Werin dan 12 oed. Da iawn ti.

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.



gan Gary Slaymaker

Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis:

The Sense of an Ending

Jim Broadbent sy'n chwarae Tony- gŵr sydd wedi ymddeol ac ysgaru, a sydd bellach yn gwneud bach iawn gyda'i fywyd. Ond ar ôl derbyn dyddiadur hen ffrind ysgol mewn ewyllys, ma' hyn yn gwneud i Tony hel atgofion, codi bwganod, a mynd ar antur i gyfarfod y ferch fuodd yn ei garu, blynyddoedd lawer yn ôl. Yn seiliedig ar nofel fer Julian Barnes, mae hon, yn y bôn, yn stori am lencyndod, cof a heneiddio. Lwcus bod Broadbent cystal actor, achos dydi cymeriad Tony ddim yn ddyn rhwydd i'w hoffi, ond mae'r perfformiad yn dal y diddordeb yn antur y gŵr. Gyda chefnogaeth gref gan Charlotte Rampling, fel y fersiwn hŷn o'r cyn-gariad, a Michelle Dockery fel merch feichiog Tony, mae'r cast yn llwyddo i droi stori 'itha bach, ac ar adegau rhy ysgafn, mewn i rhywbeth lawer gwell na'r disgwyl.

Clash

Nawr i fod yn onest, dw i heb gâl cyfle i weld hon, ond mae wedi câl adolygiadau rhagorol ers iddi gael ei rhyddhau nôl ym mis Ebrill. Wedi ei lleoli yn ystod chwyldro'r Aifft yn 2011 a 2013, mae'r ffilm wedi ei gosod bron i gyd yng nghefn fan heddlu, lle mae dau ohebydd (Eifftwyr Americanaidd) yn gorfod rhannu'r cwtsch bach 'ma gyda chriw o garcharorion o'r ddwy ochr i'r gagendor gwleidyddol. Roedd hi'n ffefryn mawr yng ngŵyl Cannes eleni ac wedi cael ei disgrifio fel campwaith o dyndra a claustrophobia llwyr. P'idwch disgwyl chwerthin gormod, te!

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Dangosir ffilm yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch ar nos Iau diwethaf y mis am 7.30yh. Mynediad am ddim.



Tîm Pêl-droed Llambled a enillodd Twrnament Gary Pugh yn ddiweddar.



Ymddiheuriadau na ymddangosodd y llun yn ei gyfarwydd yn rhifyn diwethaf Clonc.



Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï gysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael



Danteithion i Danio'r Dychymyg

Y mis yma rwyf am ddathlu noson Tân Gwylt yng Nghegin Clonc. Beth am fwyd cysurlon, blasus a chynnes, - sydd yn addas i'w fwynhau o amgylch y goelcerth? Mae hefyd yn hawdd i'w weini, ac yn addas i'r teulu, ffrindiau – i bawb!

Medrwch fwynhau'r sŵp mewn cwpanau, - beth am rai enamel! – a digon o rholiau bara.

Mae'r pwddin yn cwmpasu dau o ffefrynnau noson Tân Gwylt – sef afalau taffi a'r gacen draddodiadol sydd yn cael ei gweini ar y noson, sef 'Parkin'.

Mwynhewch y bwyd a'r tân gwylt, a chofiwch gadw'n gynnes a diogel.

Byddaf yn ôl mis nesaf gyda ryseitiai Nadoligaidd.

Pob hwyl o'r gegin

Gareth

Sŵp 'Butternut Squash' a phupur coch

Daeth ysbrydoliaeth y sŵp yma i mi wrth feddwl am ei liw – oren a choch, - lliw tân.

Cynhwysion

1 butternut squash	2 lwy fwrdd olew
25 g menynd	2 winwnsyn
1 ewin garlleg	1 pupur coch wedi ei dorri'n fân
1 ½ peint stoc llysiau	4 llwy fwrdd crème fraîche

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C. 180 fan. Nwy 6. Torrwch y squash yn ddarnau a gosodwch mewn tun gyda'r olew. Rhostiwch am 30 munud, nes ei fod yn euraidd a meddal.
2. Toddwch y menynd mewn sosban, ac ychwanegwch y pupur coch a'r winwns. Gorchuddiwch a choginiwch am 15-20 munud.
3. Tynnwch o'r gwres.
4. Ychwanegwch y butternut squash, stoc a'r crème fraîche, a chan ddefnyddio hylifwr llaw, hylifwch y cyfan nes ei fod yn llyfn. Gosodwch e nôl ar y gwres i gynhesu; ychwanegwch bupur a halen i'w flas.
5. Gweinwch mewn cwpanau ac ychydig o 'crème fraîche' ar yr wyneb.

Pwddin Parkin

Cynhwysion	
200 g uwd	200g blawd codi
¼ lwy de halen	2 lwy de o bowdwr sinsir
175 g triog	140 g siwgr brown meddal
140 g menynd	1 wy
2 ddarn o sinsir mewn syrup	¼ peint o laeth
4 afal wedi eu plicio, haneru a'r hadau wedi'u gwaredu	

Dull

1. Trowch y ffwrn i 160 C. 140 fan. Nwy 3.
2. Irwch a leiniwch dun 30 x 20 cm
3. Cymysgwch y 4 cynhwysion cyntaf, yna toddwch y triog, menynd a'r siwgr. Ychwanegwch yr wy, laeth a hanner y sinsir wedi ei ddarnio at y cynhwysion sych.
4. Rhowch y gymysgedd yn y tun, ac yna haneru'r afalau ar yr wyneb, yna tameidiau o fenyn ar yr afalau ac ychydig siwgr. Pobwch am awr.
5. Brwsiwch y parkin gyda syrup o'r pot sinsir a gweinwch gyda chwstard.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llangybi a Betws

Ysgol y Dderi



Bu plant Cyfnod Allweddol 2 lawr ym Mharec y Scarlets ar nos Wener, 29ain o Fedi i wylïo gêm rygbi yn erbyn Connacht. Roedd hi'n gêm gyffrous gyda'r tîm cartref yn ennill 36-27. Bu digon o gyfleoedd i ganu Sosban Fach drwy'r nos! Diolch i'r holl staff am drefnu.

Mynychodd plant y Cyfnod Sylfaen sesiwn Sbri-di-ri yr Urdd yn Ysgol Henry Richard. Diolch i Sam Ebenezer, Anwen Eleri a'i chriw am brynhawn llawn hwyl wrth ganu a dawnsio.

Fel rhan o'u gwaith thema "Clic! Clic! Y Dderi!", sy'n ymwneud â hanes lleol a ffotograffiaeth bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Thŵr Y Dderi gyda Mr Odwyn Davies yn ddiweddar i ddysgu hanes y tŵr nodedig. Cawsom fore addysgol iawn a diolch i deulu Fferm Penparc am y croeso ac i Mr Odwyn am ei amser a'i wybodaeth.

Cafwyd perfformiad gwyllt gan Gwmni Theatr Arad Goch o ddrama "Nid Fi", sy'n ymdrin â bwlio yn yr ysgol ac ar lein. Braf oedd croesawu cyn-ddisgybl sef Elliw a oedd yn actio fel un o'r prif gymeriadau yn y sioe. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy gyda'r actorion yn dilyn y perfformiad.

Teithiodd Mr Dylan a Mrs Ann yr holl ffordd i Slofenia yn ddiweddar i fynychu cyfarfod cynllunio Erasmus+ yn Ysgol Brinhje. Cafwyd y cyfle i drefnu yr holl waith sydd i ddod am y flwyddyn gyda thaith i Wlad Groeg yn y gwanwyn, a Norwy yn yr haf. Mae disgyblion blwyddyn 6 yn edrych ymlaen yn eiddgar at y profiadau.



Fel rhan o gynllun Llysgenhaden STEM (Science, Technology, Engineering and Mathematics) daeth Kevin Thomas i fewn i ddosbarth blwyddyn 1 a 2 i rannu ei arbenigedd ar y planedau a'r gofod. Roedd y plant wedi rhyfeddu ar y telescopau anferthol ac yntau wedi rhyfeddu ar wybodaeth y plant am y bydysawd!

Bu'r actor Siôn Emyr yn perfformio sioe Hedd Wyn o gwmni Mewn Cymeriad yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd cyflwyniad addysgiadol arbennig yn cynnwys y lleddf a'r llon a ddysgwyd am hanes cenedlaethol pwysig iawn yn ystod canmlwyddiant "Y Gadair Ddu".

Mi fydd disgyblion blwyddyn 4 yn ymweld â'r Ysgwrn yn ystod tymor yr haf.

Fel sbardun i'n dathliadau, cafwyd gwasanaeth ysgol gyfan i gychwyn ein Diwrnod T. Llew Jones. Bu rhai o'r plant yn astudio barddoniaeth Cwm Alltcafan, rhai yn mwynhau helpa drysor Barti Ddu, a rhai yn datrys côd QR wrth ddilyn llwybr Twm Sion Cati! Does dim dadlau yn Ysgol y Dderi mai T. Llew yw Brenin Llenyddiaeth plant Cymru!

Bu merched blwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn trwnamaint Rygbi Tag yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Ennill, colli a gêmâu cyfartal oedd hanes y tîm, a phawb wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn. Diolch i Dyfrig Davies am ei hyfforddiant.

Daeth "Labordy sêr" Techniquet i neuadd yr ysgol. Bu disgyblion y

Cyfnod Sylfaen yn dysgu am y ddaear a'r planedau o fewn y cysawd. Dyna beth oedd profiad "arallfydol"!!

Bu Rala Rwdins yn Ysgol y Dderi yn cwrdd â disgyblion y Cyfnod Sylfaen ac yn rhannu storïau! Roedd yn brofiad hollol swynol!

Daeth Mair Tomos Ifans i'r ysgol i gynnal sesiwn "Gêmau Buarth" gyda phlant y Cyfnod Sylfaen i hyrwyddo Cymreictod amser chwarae. Cafwyd prynhawn llawn hwyl a sbri!

Uchafbwynt gwaith yr hanner tymor yma i blant y Cyfnod Sylfaen oedd cynnal parti ar y lleud! Cafwyd picnic blasus o fara lloer, bisgedi sêr a chacennau'r byd. Bu'r plant yn chwarae golff fel y gwnaeth Neil Armstrong a Buzz Aldrin nôl ym 1969! Mae hyd yn oed seren allan yn y bydysawd wedi ei henwi yn "Seren Y Dderi" erbyn hyn! HR4603 oedd enw'r seren yn flaenorol ond erbyn hyn mae gennym dystysgrif oddi wrth yr "International Astronomical Union" yn datgan mai "Seren Y Dderi" yw ei henw hi erbyn hyn. WAW!



Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar daith "Chwedlau Ceredigion" gyda Dafydd Morgan fel rhan o'u thema "Rhyfeddodau'r Byd". Dechreuwyd y daith ym Mhrifysgol Dewi Sant Llanbed, lle dysgodd y plant am hanes y gêm rygbi gyntaf cyn symud ymlaen i Dregaron i glywed am helyntion yr eliffant a Twm Sion Cati. Y safle nesaf oedd Pontarfynach i glywed am hanes y pontydd cyn gorffen ein taith ar draeth Borth a chlywed hanes Cantre'r Gwaelod. Cafwyd amser bendigedig yn dysgu am hanes a chwedlau hudolus yr ardal.



Codwyd dros £200 tuag at elusen y Gymdeithas Strôc yn ein cyrddau diolchgarwch yn ddiweddar. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi, bu Cyfnod Allweddol 2 yn cynnal gwasanaeth yn Eglwys Llanfair Clydogau, ac yna bu gwasanaeth ysgol gyfan yn neuadd yr ysgol i'r henoed. Braf oedd croesawu ein ffrindiau o Hafandeg ac roedd Clwb Ceginio'r ysgol wedi paratoi gwledd i de!

Hamdden

Treuliwyd orig ddifyr ac hanesyddol yng nghwmni ein gwraig wadd – Eirwen James a fu'n sôn am Ystad y Dderi ym Metws Bledrws. Roedd yn stad enfawr ar un adeg gyda thiroedd ym Mronwydd, Llandeilo, a Llanddewi Brefi. Ceid ffermydd hefyd yn y plwyf a llawer o fythynnod i gartrefi gweithwyr y stad fel amaethwyr, garddwyr a chiperiaid. Roedd y gerddi, llynnoedd a'r rhodfa i'r plas yn eu gogoniant ac yn arbennig o hardd. Adeiladwyd Tŵr y Dderi a'i holl chwedlau gan un o berchnogion y plas. Rhoddwyd pleidlais wresog i Miss James gan y Parch Elizabeth Evans.

Dywedwyd bod Cinio Calan yng Nghlwb Golff y Cilgwyn ar brynhawn dydd Gwener, Ionawr 5ed 2018. Enillwyd y raffl ar y noson oedd Sue Wellings, Maisie Morgan, Jen Cairns, Jill Smith, Ethel McLoughlin, Rita Jones Alunda Jones a Jean.

Llangybi a Betws

I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned a bisgedi wedi eu rhoi gan Gwen Lewis a Mair Spate. Bydd y cyfarfod nesaf ar brynhawn Gwener, am 2:00 o'r gloch yn yr ysgol pryd y disgwylir Mrs Rhonwen Thomas i roi arddangosfa goginio – noder mai ar yr ail ddydd Gwener mae'r cyfarfod yma, sef Tachwedd 10fed.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mr a Mrs Dilwyn Pugh, Bro'r Felin yn eu profedigaeth o golli eu brawd yng nghyfraith. Hefyd cydymdeimlir â theulu Blaenwern, hwythau wedi colli ewythr.

Merched y Wawr

Ein is-lywydd Deborah Jones fu'n cyflwyno ein gŵr gwadd sef Mr Geraint Morgan o Fwlchyllan. Mae Mr Morgan yn ŵr prysur iawn a chanddo lawer o ddiddordebau a swyddi. Mae ynghlwm â Ffermwyr Ifanc Llangeitho, Clwb Rygbi Tregaron a'r gymuned. Cawsom noson ddiddorol a hamddenol yn ei gwmni a bu'n sôn am ei fagwraeth a dylanwadau'r gymdogaeth ar ei fywyd ac am ei waith fel fferylllydd yn Ysbyty Bronglais ers blyneddau lawer. Rhoddodd Ann Davies bleidlais o ddolch iddo am ein goleuo ar wahanol gyffuriau ac am ei hanes a hefyd am ei frwdfrydedd dros lawer o fudiadau yn ei filltir sgwâr.

Rhoddwyd y raffl gan Irene Lewis a'r enillydd oedd Mary Jones. Dymunwyd yn dda i'r aelodau oedd yn sâl ac fe longyfarchwyd Mary a Ken Jones ar ddathlu eu Priodas Aur.

I ddiweddu y cyfarfod, cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei roi gan Mary Jones a Mair Spate.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi am 7:00 o'r gloch ar Dachwedd 15fed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Bledwyn Holgate, Lluest Farm, Derry Ormond am basio Step 1 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y 'London College of Music'. Cafodd Bledwyn farciau llawn yn y theori.

Cyfle i ddweud eich dweud



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Beth yw eich profiad chi o wasanaethau Cymraeg? Oes angen i sefydliadau wella eu gwasanaethau? Dewch i ymuno â grŵp trafod y Comisiynydd am sgwrs dros baned.

Neuadd Cawdor, Castell Newydd
Emlyn 7-8pm Nos Lun 27/11/17

I gael gwybod mwy ffoniwch 0345 6033221 neu e-bostiwch post@comisiynyddygyymraeg.cymru



Myfyrdodau Jones y Fish

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Clonc yn cyhoeddi pump o erthyglau wedi eu hysgrifennu yn arbennig ar gyfer papur bro. Dyma ffrwyth gwaith Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd a enillodd iddo'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ym mis Awst. Yn ôl y beirniad, Catrin Withers, roedd Jones y Fish – neu Huw Alltgoch i ni – yn "...ysgrifennu'n dda mewn tafodiaith rywiog." Mae'n bleser gan Clonc gael cyhoeddi'r gwaith gan wybod y bydd yr erthyglau'n rhoi mwynhad mawr i'n darllenwyr.

Rhoi llathen wrthi

Claddwyd Defis ym mynwent Capel y Bryn, Ebrill 1938 yn 72 oed. Siopwr Dre-fach oedd e ond 'rôl degawd tu ôl i'r cownter cododd ei bac am America. Yr Arlywydd oedd wedi clywed amdano, medde fe, ac eisiau ei arbenigedd fel tipyn o architect a handy man i godi ffatri dears, yr adeilad uchaf welodd y States erioed. Amrywia'r union gyfnod y bu yno yn ôl sawl wisgi roedd e wedi'i yfed yn nhafarn Ty'n porth!

Pennaf nodwedd ei wynepryd oedd trwyn cam, hynny am iddo gael ei daro â mellten ar y fordaith allan. Roedd lleuad America, nôl Defis, ddwywaith maint lleuad Dre-fach, a'r gwenyn 'seis brain ffor' hyn'. 'Shwt gwbe oedd gyda nhw?' gofynnodd rhywun, 'O! tebyg i sy 'ma.' 'Wel shwt o'n nhw'n mynd mewn te?' heriodd yr holwr. 'O! eu busnes nhw oedd 'ny!' Gwelodd fuwch gorniog rywle oedd cymaint o faint fel ei bod yn cymryd diwrnod i frân hedfan o un corn i'r llall.

Bu'n gweithio ar fferm dato - dwy rych. Criw yn dechrau gosod un pen i'r rych gyntaf, gweithio 'mlaen tua'r gorwel a throi i ddilyn y llall am nôl. Erbyn iddynt gyrraedd diwedd yr ail byddai giang arall yn dechrau codi tato ym mhen y rych gyntaf! A'r tato - anferth. Methwyd symud un, ceffylau'n tynnu ond dim cyffrad. Cariodd y dydd, a'r unig ateb oedd codi siop chips ar ei phwys hi.

Ond y ffatri: amcangyfrifai Defis fod angen saith mil o 'hoelion chwech' i'w chodi ac wedi cwpla'r job tair oedd dros ben. Rhyw brynhawn cydiodd tân gwyllt - teiars wrth gwrs - a Defis ar y llawr uchaf. Doedd dim amdani ond gwasgu mewn i'r teiar mwyaf posib a'i gadael i gwympo. 'A wyddech chi, o'dd y lle mor uchel a'r teiar mor fowr bues i'n bownso am bythefnos!'

Cyn dod adref prynodd binoculars. Yna, dyma fynd lan ryw brynhawn Sul i gopa mynydd Llanybydder i'w profi. Fe'u cododd at ei lygaid, canfod eglwys Llanwenog, 'a wyddech chi bois, roedd mor gryf, fe dynnodd yr eglwys mewn mor agos ro'n i'n clywed y 'ffairad yn rhoi'r fendith ar ddiwedd y cwrdd!'

Doedd e'n twyllo neb, dim ond ymestyn yr edau, rhoi jam ar y bara, fel petai, fel y cyfarwyddiaid gynt. Yng ngeiriau'r Prifardd Idris Reynolds,

yr artist swreal
yn plastro'r lliwiau llachar
ar gynfas y dyddiau llwm.

Cyfoethog y rhai a'i hadnabu.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.
ysgrifennydd@clonc.co.uk



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn



01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Corisma yn Llundain

Bu'r mis diwethaf yn brysur iawn i ferched y côr, gyda'r ymarferion a'r paratoadau ar gyfer taith "Teilwng yw'r Oen" i Lundain gyda chorau Cardi-Gân a Meibion y Mynydd. Bu tipyn o edrych 'mlaen at y penwythnos mawr, a dyna i chi beth oedd penwythnos i'w gofio!

Cychwynnodd dau lond bws o gantorion a chefnogwyr o Lanbed, ac un bws o Bonterwyd, am 8:15 fore Gwener yr 20fed o Hydref. Roedd y cyffro a'r brwdfrydedd yn amlwg, a phawb mewn hwylie da ac yn barod amdani. Cawsom daith hwylus dros ben, ac ar ôl hoe fach yn Leigh Delamere, fe gyrhaeddodd y gwesty yn ninas Llundain ddiwedd y prynhawn. Cyfle wedyn i ymlacio a chymdeithasu yng nghwmni'r corau eraill, cyn y dydd Sadwrn hir-ddisgwyliedig!

Diolch byth nad oedd sôn am "Storm Brian" yn Llundain fore Sadwrn, â'r haul yn gwenu wrth i ni fwynhau wâc yn Hyde Park ar ôl llond bol o freewast. Yna daeth hi'n amser cychwyn am Eastcastle Street ac Eglwys Gymraeg Canol Llundain, er mwyn cael ymarfer gyda'r cerddorion o Wasanaeth Cerdd Ceredigion, Deiniol Wyn Rees a Non Parry Williams - yr unawdwyr, Meleri Morgan - y llefarydd, a Rhys Taylor - y cyfarwyddwr cerdd. Fe ddaeth popeth at ei gilydd yn hwylus; roedd y sain yn anhygoel a phawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at berfformio i gapel llawn. Braf oedd gweld felly, wrth i ni gerdded i mewn ar ddechrau'r noson, fod y lle yn orlawn a gallwn deimlo fod yr awyrgylch yn arbennig - doedd dim amheuaeth ei bod hi'n argoeli i fod yn noson a hanner!

Cawsom gyfle yn yr hanner cyntaf i berfformio fel tri chôr ar wahân ac yna fel côr unedig. Corisma oedd yn agor y noson dan arweiniad Carys, a Lois yn cyfeilio (heb anghofio cyfraniad pwysig Rhian Twynog a Carys Lloyd-Jones ar y tamborins!). Roedd hi'n amlwg fod y merched i gyd wedi mwynhau perfformio, ac roedd ymateb gwresog y gynulleidfa a'r ffaith fod y bos wedi'i phlesio, yn goron ar y cyfan. Ar ôl ychydig o seibiant, tra bod Cardi-Gân a Meibion y Mynydd yn cymryd eu tro ar y llwyfan, roedd hi'n bryd ffurfio'r côr unedig a chanu dwy gân, gyda Caryl (arweinyddes Meibion y Mynydd) yn arwain a Lois yn cyfeilio - a dyna orffen yr hanner cyntaf ar nodyn uchel!



Ymlaen wedyn, yn yr ail hanner, at uchafbwynt y noson, sef trefniant arbennig Rhys Taylor o "Teilwng yw'r Oen". Fel y gŵyr pawb, mae'r Meseia gan Handel yn un o'r gweithiau cerddorol mwyaf adnabyddus yn y byd, ac mae "Teilwng yw'r Oen" yn cyflwyno'r alawon hyfryd gwreiddiol gyda gwedd gyfoes. O'r nodyn cyntaf hyd at yr olaf roedd yr holl beth yn wefreiddiol ac roedd bod yn rhan o'r corws yn brofiad bythgofiadwy i bob un ohonom. Roedd cymeradwyaeth ac ymateb y gynulleidfa ar y diwedd yn dweud y cyfan, ac roeddem yn griw hapus a bodlon iawn. Doedd neb am i'r noson ddod i ben a chafwyd tipyn o hwyl wedyn yn dathlu'r llwyddiant!

Cawsom groeso twymgalon gan bawb yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain, a hyfryd oedd cael ymuno yn yr oedfa ar y bore Sul. Er fod y lleisiau'n go flinedig erbyn hynny, pleser oedd perfformio fel côr unedig unwaith eto (ond nid am y tro olaf, gobeithio). A dyna ni, ychydig o amser wedyn i gael cinio ac ati cyn cychwyn am adre, a'r daith yn llawn chwerthin, sgwrsio, rhannu lluniau ac ychydig o chwyrnu hefyd!

Does dim dwywaith amdani, - dyma benwythnos a fydd yn aros yn y cof am byth. Diolch o waelod calon i bawb a wnaeth yr holl beth yn bosib, ac am gael bod yn rhan o "Teilwng yw'r Oen 2017".



Adloniant gan Rhian Dafydd

Theatr FELINFACH

Mae wedi bod yn fis tu hwnt o brysur yn Theatr Felinfach gan ddechrau gyda Y Sioe Gneifo. Y ddrama gerdd gyntaf yn y byd i ddathlu CNEIFO. Prosiect oedd yn rhan o'r Wyl Ddrama sy'n fenter ar y cyd rhwng Theatr Felinfach a Theatr Gydweithredol Troedryhiw. Tra bydd defaid bydd cneifo yw'r hen ddywediad a dyna oedd y sioe, drama gerdd i ddathlu defaid a chneifo - 'slawer dydd a heddi. Dim mwy! Dim llai!

Ar Nos Iau, 12fed Hydref cynhaliwyd perfformiad drama un dyn newydd yn yr iaith Gymraeg gan y tîm a ddaeth â Burton a Dylan Thomas: Clown in the Moon i'r llwyfan yn Theatr Felinfach. 'Stori ddigri', drasig ac anghredadwy am fywyd Iddew enwocaf holl fyd ffuglen'

Ai dihiryn ynteu ddiodeffwr a gafodd ei drin yn hallt yw Sieiloc y benthyciwr arian Iddewig o'r Marsiandwr o Fenis? Cafwyd perfformiad caboledig gan Rhodri Miles, perfformiad oedd yn dathlu iaith unigryw a chyfoethog Shakespeare gyda thriniaeth fanwl, hudol a doniol o Sieiloc a'i bobl. Er mai bach oedd y gynulleidfa roeddent yn llawn gwerthfawrogi arbenigedd y perfformiad a dangoswyd hyn yn unfrydol gan iddynt sefyll ar eu traed fel un ar ddiwedd y perfformiad.

Cafwyd noson o Gomedï a Chân ar Nos Sadwrn, 14eg Hydref gyda Phil Evans, Gary Slaymaker ac Aled Richards fel comedïwyr a Swynwr Solfach, Meic Stevens yn canu rhai o'i ganeuon mwyaf poblogaidd. Cafwyd noson hwyllog iawn a phawb wedi mwynhau.

Tro Ysgol Berfformio Theatr Felinfach oedd serenennu ar Nos Iau, 19eg Hydref. Cychwynnodd Ysgol Berfformio Theatr Felinfach fis Ionawr eleni. Mae'r sesiynau ar Nos Iau yn ystod y tymor a cheir sesiwn i'r oedran cynradd 7-11 oed am 4:30yp ac un arall i'r oedran uwchradd 11-18 oed am 5:30yp. Mae'r Ysgol Berfformio yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau perfformio actio, canu a dawnsio. Mae'n gyfle gwyb i fwynhau a phrofi sgiliau theatr drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gwrdd â ffrindiau newydd sydd â'r un angerdd am berfformio.

Daeth penwythnos hir disgwyliedig yr 20fed - 22ain o Hydref a thaith cynhyrchiad Teilwng yw'r Oen i Lundain. Dyma benllanw misoedd o waith trefnu ac roedd 3 llond bws o Geredigion yn anelu am Lundain. Yn eu plith roedd y 3 chôr cymunedol, sef Côr Cymysg Cardi-Gân o ardal Dyffryn Aeron, Côr Merched Corisma o ardal Llanbedr Pont Steffan a Meibion y Mynydd o ardal Ponterwyd oedd yn creu corws y cynhyrchiad. Roedd y criw yn aros yng ngwesty'r Corus, Hyde Park ac yn perfformio yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain ar Nos Sadwrn, 21ain Hydref. Roedd y capel dan ei sang ar gyfer y cyngerdd. Roedd y 3 chôr yn perfformio rhaglen o dair cân yr un yn ystod y rhan gyntaf a dwy gân fel Côr Unedig, sef Gobaith yn y Tir a Bendithia, Dduw, yr Oedfa Hon gan Eric Jones i roi blas i'r gynulleidfa o'r hyn oedd i ddod. Ail ran y cyngerdd oedd perfformiad Teilwng yw'r Oen, gyda band Gwasanaeth Cerdd Ceredigion a phedwar cerddor proffesiynol, Meleri Morgan fel Llefarydd, Non Parry Williams a Deiniol Wyn Rees fel Unawdwyr Gwadd, y Côr Unedig a Rhys Taylor, y cerddor proffesiynol llawrydd sy'n wreiddiol o Aberystwyth yn llywio'r cyfan. Cafwyd perfformiad ysbrydoledig a'r gynulleidfa ar ei thraed mewn gwerthfawrogiad ar ddiwedd y perfformiad. Bu'r Côr Unedig yn canu hefyd yn rhan o'r oedfa fore Sul a'r bregeth wedi ei theilwra ar y thema 'Teilwng yw'r Oen a Laddwyd' gan y Gweinidog, Rob Nicholls. Roedd y penwythnos yn un cofiadwy yn wir a diolch i bawb a'i gwnaeth yn bosib; i bawb a gyfrannodd roddion ariannol, yr hysbysebwyd, Tim staff Theatr Felinfach, y cwmnïau bysiau, Rob Nicholls ac Eglwys Gymraeg Canol Llundain y tri chôr a'r cefnogwyr am y gwmnïaeth a'r gefnogaeth.

Ar Nos Wener a Nos Sadwrn, 27 a 28ain o Hydref cynhaliwyd dwy NOSON LAWEN LAWEN CALAN GAEL yn nhafarn Rhos yr Hafod ar y Nos Wener ac yn Theatr Felinfach ar Nos Sadwrn - yn ddibynnol ar bwy fydd yn troi-ian! Dair blynedd yn ôl, gosododd Theatr Gydweithredol Troedryhiw ei hun yr her o geisio ail-ddarganfod y Noson Lawen. Ers 2015, mae gangiau creadigol Troedryhiw wedi bod yn syfrdanu cymdogaethau gwledig a threfol â'u nosweithiau di-arweinydd, di-drefn, direol. O ba ran o'r stafell daw'r gân nesa? Fydd hi'n hen? Fydd hi'n newydd sbon? Pa sgetsh fydd yn gwawdio Gobeithion Mawr y Genedl? Yn gwawdio ni, Gymry di-fai'r gorllewin a'n cynghorau a'n mudiadau 'byddaf-yn-ffyddlon-i-Gaerdydd-ac-unrhywun-arall-sy'n-rhoi-arian-i-ni'? Cafwyd dwy noson arbennig a sbwwci!!

Y Panto - Perfformiadau 9 - 16 Rhagfyr

Wyt ti'n hoffi actio, canu a dawnsio?

Wyt ti yn ddisgybl Blwyddyn 9 neu'n hŷn? Dere - ymuna yng nghorws Pantomeim blynyddol Theatr Felinfach! #hwyl #sbri #profiad #sgiliau #perfformio

Ymarfer cyntaf 5/11/2017 rhwng 10yb - 4yp. Cysylltwch â Ffion Medi neu Lowri Briddon ar 01570 470697 Ffion.Hughes@ceredigion.gov.uk neu Lowri.Bridson@ceredigion.gov.uk

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth troi Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphtorestore.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Cymuned Llanwenog
Cadeirydd: Cyng. Geraint Davies
Clerc: Gwennan Jenkins
Drefach – Diffibriliwr
Mae Diffibriliwr ar gael yn Nrefach ac mae wedi ei leoli yn y Ciosg Coch sydd yn y pentref. Peiriant achub bywyd petai rhywun yn cael trawiad ar y galon yw hwn. Mae gan y person tua 4 munud i fyw wedi iddo gael y trawiad. Felly mae amser yn dyngedfennol.
Gorsgoch - Diffibriliwr
Mae Diffibriliwr ar gael yng Ngorsgoch ac mae wedi ei leoli tu allan i Neuadd yr Hafod. Peiriant achub bywyd petai rhywun yn cael trawiad ar y galon yw hwn. Mae gan y person tua 4 munud i fyw wedi iddo gael y trawiad. Felly mae amser yn dyngedfennol.
Cwmsychpant – Diffibriliwr
Mae Diffibriliwr ar gael yng Nghwmsychpant ac mae wedi ei leoli yn y Ciosg Coch ar y sgwâr. Peiriant achub bywyd petai rhywun yn cael trawiad ar y galon yw hwn. Mae gan y person tua 4 munud i fyw wedi iddo gael y trawiad. Felly mae amser yn dyngedfennol.
Cwrtnewydd – Diffibriliwr
Mae Diffibriliwr ar gael yng Nghwrtnewydd ac mae wedi ei leoli yn y Ciosg Coch ar y sgwâr. Peiriant achub bywyd petai rhywun yn cael trawiad ar y galon yw hwn. Mae gan y person tua 4 munud i fyw wedi iddo gael y trawiad. Felly mae amser yn dyngedfennol.
Llanwnnen – Diffibriliwr
Mae Diffibriliwr ar gael tu allan i Neuadd yr Eglwys yn Llanwnnen. Peiriant achub bywyd petai rhywun yn cael trawiad ar y galon yw hwn. Mae gan y person tua 4 munud i fyw wedi iddo gael y trawiad. Felly mae amser yn dyngedfennol.

Cyngor Cymuned Llanybydder
Mis Medi 2017
Rhoddwyd £100.00 tuag at Glefyd y Galon er cof am Mr Mick Maskelyne, Rhydcymerau. Roedd Mick yn ŵr ffyddlon iawn i Mrs Sylvia Maskelyne, ein is-gadeiryddes. Cydymdeimlwn i gyd â hi yn ei phrofedigaeth yn ddiweddar.

Adroddiad o Clonc360

‘Cymru wledig wedi dioddef’ yn ôl Eifion Evans o Lanwnnen. Ers dechrau mis Hydref mae'r gŵr sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn ardal Llanbed wedi ymgymryd â'r gwaith o fod yn Brif Weithredwr i Gyngor Sir Ceredigion. Mae Eifion Evans yn dweud mai cryfhau'r economi leol fydd prif flaenoriaeth y cyngor dros y blynnyddoedd nesaf gan ddweud ei fod yn “gofidio am y toriadau.”
“Dw i'n credu bod y Gymru wledig wedi dioddef ers sawl blwyddyn – ac mae 'na ddiffyg buddsoddiad wedi bod yng nghefn gwlad Cymru yn y bobol ifanc sydd gennym ni ac yn y cyfleoedd ar gyfer swyddi da yn ein hardal ni,” meddai.
“Mae'n ofid inni, a hoffwn weld cyfleoedd newydd yn cael eu creu ar draws y sir,” meddai. ‘Ceredigion yn baradwys’. Mae Eifion Evans yn byw yn Llanwnnen erbyn hyn, ond mi gafodd ei eni ym Merthyr Tudful a'i fagu yn y cymoedd lle bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ym Mhontypridd. Ond pan oedd yn bymtheg oed, symudodd ei deulu i Gwmannwrth i'w dad gael ei benodi'n bennaeth Ysgol Coedmor ag yntau'n wreiddiol o Llanbydder. “Mae wedi bod yn uchelgais gen i ar hyd fy ngyrfa i arwain sefydliadau o fewn Ceredigion. Dw i wedi ystyried Ceredigion yn baradwys erioed ac mae'n lle sy'n agos iawn at fy nghalon i,” meddai wedyn.



Gwasanaethau Coed Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

☎ 07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com





GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensiō a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Lifestyle Kitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Darteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Gohebiaeth



Gall hyd yn oed y syniad symlaf gael yr effaith fwyaf...

Ydych chi'n awyddus i wneud gwahaniaeth go iawn i'ch cymuned wledig – gan ei gwneud yn lle gwell fyth i fyw a gweithio ynddi? A oes gennych syniadau a allai helpu eich amgylchedd leol gan gynnwys ynni adnewyddadwy, datblygu syniadau o ran technoleg ddigidol neu helpu i gefnogi adnoddau a gwasanaethau eich cymuned leol?

Hoffai Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, a weinyddir gan Gyngor Sir Ceredigion, glywed gan bobl leol sydd â syniadau cymunedol arloesol. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Gall Cynnal y Cardi eich cynorthwyo gyda datblygu prosiectau, gwerthuso, astudiaethau dichonolrwydd, hwyluso, hyfforddiant, mentora, ymgynghori a phrosiectau pilot.

Croesawir pob syniad – bach a mawr – ac ar sail dreigl, a dydd Llun 11 Rhagfyr 2017 yw'r dyddiad cau nesaf er mwyn mynegi diddordeb.

Am wybodaeth bellach ynghylch bod yn gymwys am gefnogaeth, sut i fynegi diddordeb a gweithgarwch LEADER Cynnal y Cardi yng Ngheredigion, ewch i wefan Cynnal y Cardi, www.cynnalycardi.org.uk neu ffoniwch y tîm ar 01545 572063 neu anfonwch ebost at cynnalycardi@ceredigion.gov.uk

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad profesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



Llanwnnen

50oed

Dathlodd Lynwen Jenkins, Llysfaen Isaf ei phen-blwydd yn 50oed yn ystod dechrau mis Hydref. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 2 Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Sefydliad y Merched Llanwnnen yn Ffestri Capel-y-Groes a chafwyd cwmni Mrs Brenda Wright, Cadeirydd y Sir yn ystod y noson. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Avril Jones, ein Llywydd a chafwyd adroddiad ganddi ar weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio. Cafwyd adroddiad gan Ann Hughes, yr Ysgrifenyddes hefyd, yn ogystal ag adroddiad ar drafodion y cyfrifon gan Ceinwen Roach, y Trysorydd. Yna aethpwyd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn 2017/18: Llywydd – Carol Thomas; Is-Lwyddion – Gwen Davies ac Avril Jones; Ysgrifenyddes – Ann Hughes; Trysorydd – Ceinwen Roach; Yng ngofal y te a'r raffl – Doris a Glenys Jones; Trefnydd y Rhaglen – Gwen Davies ac Ann Hughes; Gohebydd y Wasg – Carol Thomas; Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Lles y Pentref – Gwen Davies a Carol Thomas. Ar ddiwedd y noson mwynhaodd pawb baned o de a bara brith a chynhaliwyd y gystadleuaeth fisol, sef ymbarél pert. Y beirniad

oedd Mrs Wright a'r enillydd oedd Gwen Davies, gyda Ceinwen Roach yn ail a Mary Davies yn drydydd. Bydd yr aelodau yn cyfarfod nesaf nos Lun, 6 Tachwedd am 7.30 y.h yn Ffestri Capel-y-Groes pan fydd Donald Morgan, Blodau'r Bedol, Llanrhystud yn cynnal noson o drefnu blodau – estynnir croeso cynnes i aelodau newydd ac i rai nad ydynt yn aelodau ddod i'r noson hon.

18oed

Dathlodd Ellen Jones, Brynheulog ei phen-blwydd yn 18oed yn ystod mis Hydref. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dathlu'r Cynhaeaf yn yr Eglwys

Daeth nifer ynghyd i ddathlu'r cynhaeaf nos Sul, 15 Hydref. Y ficer gwadd oedd y Canon Aled Williams ac roedd neges bwrpasol ganddo i'r hen a'r ifanc. Darparwyd lluniaeth yn y Neuadd ar ôl yr oedfa a diolch i bawb a fu wrthi yn gwneud hon yn noson lwyddiannus. Diolch arbennig i Mandy am wneud y cawl.

Prif Weithredwr Newydd Ceredigion

Pob dymuniad da i Eifion Evans, Pantywilco wrth iddo ymgymryd â Swydd i fod yn Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion ers dechrau mis Hydref.

LAS Recycling Ltd



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru




Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosáu! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth enfawr. Ydych chi'n hoffi gwylio tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i'w wyllo eleni? Cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn. Rhaid cofio gwisgo menyg ac aros yn agos iawn i'ch rhieni. Cofiwch fwynhau hefyd!

Bu nifer ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun yr Hydref ac roedd ôl ymdrech i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Mari Anne Edwards o Gellan a Eiry Taylor o Gross Inn am luniau lliwgar a thaclus. Roedd rhain i gyd yn wych. Ond ar y brig y mis hwn mae Elen Sisto-Jones, Llys Gwenog, Gorsgoch, Llanybydder. Diolch Elen am ddefnyddio lliwiau'r hydref i greu llun ffantastig. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Ewch ati nawr i liwio llun mis Tachwedd! Anfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 27ain.



Enillydd
y mis!

Elen
Sisto-
Jones



Ffair Nadolig Pontsian Neuadd Pontsian

Dydd Sul, 19eg o Dachwedd
rhwng 10:30yb a 3yh.


Dros 30 o stondinau gyda chrefftau amrywiol a
chynnyrch lleol. Gwobrau raffl gwych wedi'u
rhoi gan ein stondinwyr.

Elw'r dydd yn mynd tuag at brynu teclynnau
Cyfathrebu i'r adran
Iaith a Llafaredd Hywel Dda.

Mynediad-£3 oedolion a £1 blant uwchradd,
pris yn cynnwys diod twym a mins pei.



Os ydych yn ymateb i
hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni
ymhle y gwelsoch yr
hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



DWY GYFROL NEWYDD AR ENWAU LLEOEDD (98)

Dwy gyfrol ddifys ar enwau lleoedd sy'n hawlio sylw y mis hwn. Mae'r ddwy ar gael yn Siop y Smotyn Du. Mae'r gyfrol gyntaf gan Hywel Wyn Owen yn trafod ymron wyth cant o enwau Sir Fflint. Clamp o gyfrol gan un o gewri Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Sôn a wnaeth yn unig am dri o enwau yn Sir Fflint a fyddai wedi ein camarwain yn llwyr petaem wedi derbyn yr hyn a welir ar yr wyneb yn unig.

BRYN HYFRYD

Rydym i gyd yn gyfarwydd â rhyw fan neu ryw dŷ sy'n cael ei adnabod wrth yr enw hwn. Ond yr enw gwreiddiol ar y man arbennig hwn yn Sir Fflint oedd Bryn yr Hyfrod. Mae 'hyfrod' yn dynodi bwch gafr, yn enwedig un wedi ei ysbadu!

CAE-AP-EDWARD

Yr enw gwreiddiol yn yr achos hwn oedd 'Tŷ yn y Fedw' a dyna fu'r enw tan 1840. Ond ar fap yr Arolwg Ordnans (1871) aeth 'Ty yn y Fedw' yn 'Cae Bedwar' ac yn 'Cae y Bedwar'. Ond yr hwb, y cam a'r naid a adlewyrchir ar fap yr Arolwg Ordnans (1966) yw Cae Ap Edward!

SODOM

Dyma'r enw ar ardal a phentref nid nepell o Bodfari. Yn y Beibl enw drwg oedd i drigolion dinasoedd Sodom a Gomorrah. Yn ôl pob tebyg, rhaid mai rhyw wedd llai na pharchus a nodweddiad buchedd llawer o drigolion y fro ddiwydiannol hon yn Sir Fflint. O leiaf mae'n sicr mai dyma fyddai barn y syberaf rai yn eu mysg. A cheir Sodom yn Sir Gaerfyrddin hithau. Rhag imi ddigio neb nodaf gyfeirnod grid yn unig: SN533 115

Mae Richard Huws yn aelod gweithgar arall o Gymdeithas Enwau Lleoedd

Cymru. Brodor o Gaerfyrddin yw'r awdur sydd wedi byw ym Mhont-goch ers dros bymtheng mlynedd. Enwau tai a ffermydd cymuned Bont-goch (Elerch) sydd ryw saith milltir o Aberystwyth sy'n cael sylw yn ei gyfrol ef.

Sail y gyfrol yw gwaith gan Richard a wobrwyrwyd mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Cyfraniadau arbennig o ddiddorol yw'r trafod ar dai diflanedig yr ardal. Difys, yn ogystal, yw'r ysgrifau sy'n olrhain hynt a helynt rhai o hen deuluoedd y fro. Ychwanegiad gwerth chweil, yn naturiol, yw'r lluniau deniadol sy'n cyfoethogi'r gyfrol.

Dyma rai enwau a fydd yn siwr o ennyn chwilfrydedd:

ALDEBARAN

Os ydych yn gwybod am rai seryddwyr brwd, holwch nhw'n dwll i geisio datrys yr ystyr annisgwyl sydd i'r enw hwn.

HIRSITALO

Gwaith maes manwl gan Richard a lwyddodd i ddatgelu ystyr ac arwyddocâd cwbl annisgwyl yr enw hwn. Chwiliwch amdano yn y gyfrol.

CWMERE

Mae tair afon yn cwrdd gerllaw'r ffermdy hwn. Mae'n ymddangos bod enw'r ffermdy yn cynrychioli'r ffurf lafar ar 'cymerau' sef man cyfarfod sawl nant neu afon.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
enwaulleoedd@gmail.com

Aduniad 1957



Cafwyd aduniad y cyn ddisgyblion a ddechreuodd eu haddysg yn ysgol Uwchradd Llambled yn y flwyddyn 1957, yng Nghlwb Bowlio Llambled ar Ddydd Sadwrn, Medi 30ain. Teithiodd nifer o bell ar gyfer y digwyddiad a phawb yn rhyfeddu bod 60 mlynedd wedi mynd heibio ers iddyn nhw gychwyn yr ysgol. Mae amser yn hedfan!

Diwrnod Shw mae, shw mae



Dathlu diwrnod Shw mae, Shw mae yn Ysgol Bro Pedr

Bu'r Pwyllgor Cymreictod yn brysur yn annog disgyblion ar draws y campws i siarad Cymraeg, i fwyta pice ar y maen ac i ddosbarthu sticeri. Diolch i staff y gegin gynradd, i Boppy Marklane am goginio ac i Mareth am ei chymorth gyda'r sticeri.

Nadolig 2017

Os ydych am hysbysebu eich busnes yn rhifyn mis Rhagfyr o CLONC gallwch e-bostio ysgrifennydd@clonc.co.uk.
Pris bloc bach yn dechrau yn £12.00.
Rhaid yw derbyn rhain erbyn Tachwedd 17eg.
NEU os hoffech anfon cyfarchion Nadolig i'ch teulu, cymdogion ayb - £10 yw'r gost am bloc bach.
Gwerthfawrogi derbyn eich cyfarchion erbyn Tachwedd 24ain.





Coed Nadolig

Parcyrhos

Christmas Trees

01570 434 393
07875 475 961



CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicrhau eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Breccs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Carys Thomas, C.Ff.I. Cwmann yn dod yn ail am ysgrifennu sgets yn yr Eisteddfod Sir.



Meim C.Ff.I. Cwmann yn fuddugol yn yr Eisteddfod Sir. Pob hwyl ar lefel Cymru yn Llandudno yn ystod mis Tachwedd.



Elan a Beca C.Ff.I. Cwmann yn dod yn ail yng nghystadlaeth y ddeuawd dan 26 oed yn yr eisteddfod sir.



Cystadlaeth Llefary 21 oed neu iau – 1af Sioned Howells ac Zil Owain Davies, y ddau o C.Ff.I. Llanllwni.




C.Ff.I. Cwmann yn 3ydd yn y Sgets.



Sioned Howells, C.Ff.I. Llanllwni yn derbyn tarian oddi wrth Gadeirydd y Sir am ennill yr Adran Gwaith Cartref.



Elan Jones yn ennill y 3ydd safle am Llefary 16 oed neu iau ac yn yr Unawd Offerynnol.



Llongyfarchiadau i Daniel a Dafydd Jones, C.Ff.I. Cwmann am ddod yn 3ydd agos iawn yng nghystadlaeth y Llyfr Lloffion.



C.Ff.I. Cwmann yn dod yn drydydd yng nghystadlaeth dawnsio disgo'r sir. Beca Jones yn absennol o'r llun.



C.Ff.I. Llanllwni – Meimio i Gerddoriaeth 2il.